

ECO'R WYDDFA

Rhif 202

MEHEFIN 1994

Pris 25c.

CRONFA GYNNAL ANTUR WAUNFAWR

Annwyl ddarllenwyr,

Mae ANTUR WAUNFAWR yn rhoi cyfle i ugain o bobl o'r cylch sy'n dioddef o effeithiau nam-meddwl i roi gwasanaeth i'r cyhoedd mewn gwahanol ffyrdd fel rhan o'r gymuned.

Yn ystod y flwyddyn ymosodwyd ar eiddo'r Antur nifer o weithiau. Lladratawyd offer gwerth miloedd o bunnoedd; difrodwyd adeiladau; llosgwyd ein siop a'i chynnwys; a bu ymdrech ddiweddarach i roi bwthyn a ailadeiladwyd gan weithwyr yr Antur ar dân.

Mae ymateb cefnogol pobl, ymhell ac agos, wedi bod mor ysgubol fel ag i symbylu'r Cyfarwyddwyr i roi cyfle i'r cyhoedd yn gyffredinol arddangos eu cydymdeimlad mewn modd ymarferol. Penderfynwyd sefydlu Cronfa i'n galluogi i

wynebu'r trafferthion ac i sicrhau dyfodol i'r fenter.

Cafodd ANTUR WAUNFAWR sylw byd-eang trwy'r blynyddoedd fel cynllun arloesol — apeliwn yn awr am gymorth ar raddfa fydd yn cywilyddio'r lladron a'r fandaliaid; yn profi fod y gymdeithas yn gyffredinol yn waraidd; ac yn bennaf oll, efallai, yn atgyfnerthu ffydd gweithwyr yr Antur eu bod yn parhau i gael eu derbyn fel dinasyddion yn y gymuned.

Gwerthfawrogi pob cyfraniad.

R. GWYNN DAVIES
Cadeirydd
ANTUR WAUNFAWR
BRYN PISTYLL
WAUNFAWR
GWYNEDD LL55 4BJ

(Cwmni Corfforedig Rhif 1832813. Elusen Rhif 515445)



Iona Vaughan a Louisa Morgan gyda rhai o weithwyr yr Antur fu'n cynnal tombola yn Niwrnod Agored Dinorwig.

Clywsom i gyd, gyda chryn dristwch, am y difrodi cwbl ddisynwyr a fu ar adeiladau ac eiddo Antur Waunfawr yn ddiweddar. Sefydlwyd yr Antur i roi cyfle i bobl o'r fro sy'n dioddef nam-meddwl i roi gwasanaeth i'r cyhoedd o fewn eu cymuned. Gwyddom i gyd am lwyddiant y fenter a gallwn ddychmygu'r siom a'r gofid a deimlodd y rhai hynny sydd wedi cyfrannu cymaint at y llwyddiant hwnnw. Ond mae llythyr y Cadeirydd yn dystiolaeth fod ysbryd a gobaith gweithwyr yr Antur yn parhau, ac mae'n bleser gan yr Eco roi cyhoeddusrwydd i'r Gronfa Gynnal a sefydlwyd i sicrhau dyfodol y fenter.

Mae'r ymateb eisoes wedi cychwyn. Bu Iona Vaughan o Lanberis a Louise Morgan o Lanrug, sy'n treulio cyfnodau'n gweithio yn yr Antur fel rhan o'u cwrs coleg, yn helpu i drefnu tombola a gododd £230 yn ystod Diwrnod Agored Dinorwig. Mae llythyr y Cynghorydd Eirug Wyn, ar dudalen 2, yn diolch i nifer o drigolion y fro am gyfraniadau a drosglwyddwyd iddo ef. Mae Cyngordd Arbennig wedi ei drefnu ar nos Sadwrn, 2 Gorffennaf ym Mangor (gweler tud.15). Mae'r ymgyrch hon yn werth ei chefnogi ac mae'r Eco yn hyderus y bydd ymateb trigolion y fro yn un anrhydeddus.

Oes o Wasanaeth i'w Filltir Sgwâr



Gwyn Hefin Jones, Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, yn cyflwyno tystysgrif i Mr R. T. Pritchard ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

Ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis diwethaf, cyflwynwyd tystysgrif addurniedig i Mr R. T. Pritchard, Tŷ Newydd, Llanrug, i gydnabod ei wasanaeth maith i Gyngor Cymuned Llanrug, ac i Gyngor Plwyf Llanrug cyn hynny. Mr Pritchard yw Cadeirydd presennol y Cyngor, ac y mae wedi dal y swydd honno yn ddifwlch ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974.

Ymladdodd ei etholiad cyntaf ym 1945 — ac yr oedd pawb o'r plwyfolion yn cymryd diddordeb mewn lecsiwn Cyngor Plwyf y pryd hynny — gan ddechrau canfasio ar hyd Ffordd Glanffynnon — ond nad oedd hanner cymaint o dai yno yr adeg honno. Nid yw'n cofio union gyfanswm ei bleidleisiau, ond mae yn cofio i'w frawd, oedd hefyd yn sefyll yn yr un etholiad, gael un fôt yn fwy nag efl Tybia fod dros 300 o blwyfolion Llanrug wedi pleidleisio iddo y dydd hwnnw. Fel mae'r oes yn newid: bellach, ef yw'r unig aelod o Gyngor presennol Llanrug sydd wedi sefyll lecsiwn yn Ward Llanrug, arwydd pendant yn nhyb Mr Pritchard o ddiffyg diddordeb ym materiol lleol.

Mae wedi gwasanaethu fel aelod gyda naw o Glercod gwahanol i'r Cyngor, yn eu plith, R. T. Griffith, Owen Thomas ac Arthur Vaughan Williams, fel rhai a fu yn y swydd am nifer o flynyddoedd. Yn y cyfnod cynnar, roedd aelod o ardal Llanberis ar Gyngor Llanrug, oherwydd roedd ffiniau'r plwyf bryd hynny yn cyrraedd at afon y Glyn ac i'r Clegir. Doedd dim merched 'chwaith yn aelodau o'r Cyngor yn ei gyfnod cynnar. Cred Mr Pritchard mai Mrs Hughes, Cwm-y-glo, oedd

y ferch gyntaf i gael ei hethol ar Gyngor Llanrug, yn cael ei dilyn gan Mr G. Chick a Mrs E. J. Rowlands, Llanrug. Roedd hynny yn ystod y 60au.

Beth oedd ei ymgyrch gyntaf fel aelod o'r Cyngor? Mae'n cofio iddo ddarllen erthygl yn *Yr Herald* neu'r *Caernarfon & Denbigh*, yn sôn am y posibilrwydd o gael lampau stryd i rai o bentrefi Sir Gaernarfon, a phenderfynodd y dylai Cyngor Plwyf Llanrug ymgyrchu i oleuo strydoedd y pentref. Bu'r broses o oleuo pob stryd yn y plwyf yn un hir a chostus, gydag amryw ffrae a dadl ffyrnig ymhlith aelodau'r Cyngor ynglŷn â pha stryd oedd i dderbyn y lamp nesa!

Yr un math o broblemau oedd yn poeni'r plwyfolion bryd hynny hefyd — cadw trefn yn y fynwent a chlirio'r llwybrau cyhoeddus. Ni chredai Mr Pritchard fod gofalu am lwybrau cyhoeddus mor drafferthus ers talwm gan fod llawer mwy o gerdded arnynt nac sydd heddiw. Ac felly, os oedd rhyw broblem yn ymddangos, roedd wedi ei datrys ar fyrder.

Er nad yw wedi medru mynychu cyfarfodydd y Cyngor dros y misoedd diwethaf, mae'n edrych ymlaen i wella o'i anhwylder, 'i mi gael dod yn ôl i gadw trefn ar y Cyngor yno fuan.'

Brysied y dydd iddo gael dathlu hanner can mlynedd o wasanaeth i Gyngor ei fro.

CYFARFOD CYFFREDINOL ECO'R WYDDFA

Nos Iau, Mehefin 9fed
am 7.00 o'r gloch
yn Ysgol Brynrefail

DEWCH YN LLU I GEFNOGI'R ECO

ECO'R WYDDFA

Rhif 202
MEHEFIN 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEHEFIN 20
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
GORFFENNAF	MEHEFIN 30	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 8	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

Llythyr

YN EISIAU: AELODAU AR BANEL

Cyngor Defnyddwyr Cymru

Annwyl Ddarllenwr,

Mae Cyngor Defnyddwyr Cymru ar hyn o bryd yn y broses o ddod a panel o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheiny.

Yr ydym yn chwilio am gant o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau megis pryd-ar-glud, chiropody, nyrsus cymunedol ac unrhyw wasanaethau cymdeithasol eraill i ddod yn aelodau o'r panel, a byddant yn cyfarfod yn lleol yn eu sir i drafod y wybodaeth ddarperir gan eu sir hwy.

Y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn fedr ddatgan y farn orau ac felly mae'n bwysig eu bod yn dod yn aelodau o'r panel. Yr ydym yn gobeithio hefyd, yn ogystal â'r bobl fydd yn aelodau o'r panel, y bydd tua mil o bobl yn ein cynorthwyo drwy'r post.

Y bwriad yw rhoi cyngor i'r awdurdodau lleol ar y ffyrdd y gellid gwella'r wybodaeth sydd ar gael a'i gwneud yn haws i bobl gael gwybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael iddynt, pryd, gan bwy ac am pa bris.

Byddwn yn ddiolchgar petai unrhyw un sydd â diddordeb yn cysylltu â ni cyn Mehefin 30ain. Byddwn yn talu unrhyw gostau teithio a chostau eraill aelodau'r panel. Os hoffech fwy o fanylion gallwch gysylltu â ni ar (0222) 396056.

Yn gywir,

FFLUR GWENLLIAN ROBERTS
Cyngor Defnyddwyr Cymru

COFIO'R LLUN

Annwyl Olygydd,

Dyna bleserus oedd cael ateb i'r ymchwiliad a wneuthum ynglŷn â llun fy nhad (Wil Davies, Pen'rallt) yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Derbyniais y llythyr canlynol oddi wrth Stan Roberts, 78 Pentre Helen, Deiniolen:

Rhyw air bach am y llun yn Eco'r Wyddfa. Wrth ochr eich tad mae fy nhad i, sef Jack Maldwyn; a William Hughes (Lleiniau gynt) sydd wedyn. Nid wyf yn gwybod pwy sy'n sefyll y tu ôl, na'r dyddiad y tynnwyd y llun chwaith. Ym Mhenc Awstralia y tynnwyd y llun.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am y wybodaeth; ac wrth feddwl yn ôl i gyfnod fy mhientyndod mae'r ddau gymeriad y cyferir atynt yn dod yn ôl i'm cof — fy mam a'm tad yn sgwrsio amdanynt ar yr aelwyd mae'n debyg.

Diolch yn fawr iawn i chwi.

VERA GRIFFITHS

CRISTNOGION LLANFAIRFECHAN

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at lyfryn sydd yn disgrifio yr adfywiad Cristnogol a gafwyd yn chwareli Llanfairfechan tua 1904. Mae'r cyhoeddiad yn un da iawn. Cewch fwy o fanylion oddi wrth Peter Bennett, Tŷ Chatham, Ffordd Penmaenmawr, Llanfairfechan LL33 0PN.

Gyda llaw, mae'r 'Cymry ar Wasgar' yn gwerthfawrogi yn fawr iawn waith eich cyfrannwyr i Eco'r Wyddfa — daliwch at y gwaith da i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Yn gywir,

JOHN HUNTER
Lyndhurst Road, Sheffield,
Swydd Efrog

DIOLCH!

Y Frenni
Waunfawr

Annwyl Olygydd,

Gaf i achub ar y cyfle hwn o ddiolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu arian i mi i'w cyflwyno i Antur Waunfawr yn dilyn y tân a'r lladrata diweddar.

Rwyf wedi cyflwyno swm o £301 i'r Antur ac mae'n bleser gennyf ddiolch i bob yr un ohonoch am eich cyfraniadau hael.

Yn gywir iawn,

Y Cynghorydd EURIG WYN

Panel Atal Troseddu ARFON

Mae Panel Atal Troseddu Arfon yn grŵp o 25 o bobl sy'n byw a gweithio yn ardal Arfon. Daw'r cynrychiolwyr o'r sector gyhoeddus a'r sector breifat yn cynnwys addysg, bancio, heddlu, llywodraeth leol a siambrau masnach, ac wrth gwrs drigolion sydd â phryder yn ogystal a chymhelliaid i weithredu.

Ymgymerodd y Panel â nifer eang o ymgyrchoedd llwyddiannus yn ystod yr wyth mlynedd ers ei sefydlu. Y rhai diweddaraf oedd ymgyrch i osod cloeon drysau, sbidyllau a chloeon ffenestri mewn dros 500 o dai yr henoed.

Yn ystod 1993 prynodd y Panel uned arddangos symudol Atal Troseddu ar gost o dros £8,000.

Efallai y byddai pwyllgorau Carnifan neu Sioeau Amaethyddol yn eich ardal yn ystyried gwahodd yr Uned i un o'u digwyddiadau.

Derbyniodd yr Uned groeso da yn y gorffennol gyda sticeri am ddim, tafleni lliwio ar gyfer y plant, a chyfle i oedolion i ymuno â 'Gwarchod Ceir' ac ymgyrchoedd atal troseddu eraill.

Byddwn ddiolchgar os byddai modd i chwi ddwyn cynnwys hwn i sylw trigolion y fro, ond carwn nodi na ddylai rhai sydd â diddordeb aros yn hir gan fod nifer o ddyddiadau eisoes wedi eu llenwi.

Os dymunwch dderbyn rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â mi ar (0286) 673333, estyniad 4944; neu Mr Gwyndaf Jones, Cydgysylltydd Atal Troseddu Cyngor Sir Gwynedd ar (0286) 679647.


CWNSTABL A. J. BEVAN
Swyddog Cysylltiadau Cymunedol,
Heddlu Gogledd Cymru

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL

dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

'GOFAL IECHYD YN GYMRAEG' HAWL SYLFAENOL

'Disgwylir i'r Gwasanaeth Iechyd yng Ngwynedd benodi staff dwyieithog i ofalu am blant, henoed a chleifion sy'n dioddef o salwch meddwl, a hynny o Fedi 1af ymlaen.'

Dyna'r neges i Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Gwynedd o'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar ddydd Sadwrn, 14 Mai.

Daeth cynrychiolwyr mudiadau a chymdeithasau yng Ngwynedd, a chynghorwyr o bob rhan o'r sir, ynghyd dan yr enw 'Dinasyddion Gwynedd' i ddatgan eu hanfodlonrwydd gyda safle bresennol y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Ngwynedd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Ieuan Wyn, gyda'r Parchg John Owen, Eleri Carrog a'r Cynghorydd Glyn Tomos yn annerch y gynulleidfa.

Cyfeiriwyd yn arbennig at gefnogaeth 55 o Gynghorau Cymuned i'r ymgyrch ac fe ystyriwyd nifer o gamau y dylid eu cymryd i Gymreigio'r Gwasanaeth Iechyd, a phwysleisiodd pob siaradwr hawl sylfaenol pob claf i dderbyn gofal yn ei iaith ei hun.

Adroddwyd o'r llwyfan ac o'r llawr y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei hanwybyddu a'i his-raddio, a hynny mewn sir fel Gwynedd. Dangoswyd sut y mae'r Awdurdod yn methu â chyfarfod gofynion y boblogaeth Gymraeg o fewn y sir. Mewn datganiad dywedodd Ieuan Wyn ar ran y grŵp 'Dinasyddion Gwynedd' fod y cynulliad wedi penderfynu rhoi tri mis i'r Gwasanaeth Iechyd gychwyn gweithredu'r polisi o wneud gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swyddi gyda phlant, yr henoed a'r rhai sy'n dioddef o anhwylderau meddwl.

'Mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi cael deng mlynedd i weithredu polisi teg,' meddai, **'ac mae wedi methu'n drychinebus i gyflawni ei addewid i gynnig gwasanaeth llawn yn Gymraeg.'**

'Rhaid cael newid agwedd, a rhoi cychwyn cadarnhaol ar Fedi 1af i'r gorchwyl o wireddu'r bwriad. Hwn fydd y cam cyntaf tuag at Gymreigio'r Gwasanaeth. Rhaid symud y gwarth a'r anghyfiawnder presennol. Mae

derbyn gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn hawl naturiol ac yn hawl cyfreithiol.'

Llywodraethwyr a Chynghorwyr yn y Lllys

Ymddangosodd naw o Lywodraethwyr a Chynghorwyr gerbron Lllys Ynadon Caernarfon ar y 9fed o Fai. Roeddynt wedi cymryd rhan mewn ymgyrch gan Gymdeithas yr Iaith i geisio sefydlu Trefn Addysg Annibynnol i Gymru. Fe'u arestiwyd ym mis Ionawr wedi iddynt hawlio cyfrifoldeb am dorri ffenestr

fechan yn swyddfeydd y Swyddfa Gymreig yng Nghaernarfon.

Cawsant ddirwy o £50 yr un ynghyd â chostau — cosb drom o ystyried natur y drosedd. Roedd hyn yn siom fawr gan na ddangoswyd cydymdeimlad gan yr Ynadon i'r ymgyrch bwysig hon.

I sicrhau yr addysg orau i'n plant mae'n rhaid wrth Drefn Addysg Annibynnol i Gymru ac mae llawer o waith eto i'w wneud i wireddu hyn. Mae'n rhaid inni barhau â'r frwydr.

SIONED LLWYD LARSEN

DATHLU 10 MLYNEDD DRWY BLANNU



Dr Alistair Rogers, Swyddog yr Amgylchedd gyda'r Grid Cenedlaethol a Renee Mullane yn cynorthwyo Dafydd Wigley i blannu coed ar lannau Llyn Peris yn ystod Diwrnod Agored Dathlu 10 mlynedd Cynllun Dinorwig.

O'R RWBEL I'R DYFODOL

Er mai cau Chwarel Dinorwig chwarter canrif yn ôl, ym mis Gorffennaf 1969, a symbylodd Antur Padarn a'u Cadeirydd, Glyn Tomos, i gofio'r achlysur, bwriad y cyfarfod arbennig — sydd i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ar nos Wener, 8 Gorffennaf, am 7 o'r gloch — yw nid yn unig edrych yn ôl ond ceisio edrych yn obeithiol ac yn bositif i'r dyfodol.

Yn ôl Glyn Tomos mae'n bwysig nad yw dewrder a safiadau y chwarelwyr gynt, a'u teuluoedd, yn mynd yn angof a bod gan hanes y Chwarel dipyn i'w ddysgu i ni heddiw mewn cyfnod o ddiweithdra mawr. Mae'n awyddus i'r achlysur fod yn hwb ac yn gyfle i fod yn fwy penderfynol ac erioed i geisio dyfodol gwell i'n cymunedau.

Gyda chydweithrediad a chefnogaeth lawn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis; Cyngor Sir Gwynedd; a Chynghorau Cymuned lleol, mae'r trefniadau bron a'u cwblhau ar gyfer cynnal y cyfarfod arbennig hwn. Bydd y Dr Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa'r Gogledd yn gadeirydd, a'r siaradwyr gwadd fydd Dafydd Wigley, AS; Tom Jones, Swyddog Undeb Gweithwyr Cyffredinol a Thrafnidiaeth; a'r Athro Merfyn Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor. Ceir cyfraniad gan Hogia'r Wydfa a trwy ganiatâd BBC Cymru fe ddangosir darnau o'r ddwy ffilm 'Y Chwarelwr' a 'Ffarwél Roc'.

Ar yr un penwythnos fe drefnir aduniad i gyn-chwarelwyr a'u teuluoedd yn y Gilfach Ddu, sef trwy ddydd Sadwrn a'r Sul, Gorffennaf 9fed a'r 10fed. Yn ystod y deuddydd bydd staff yr Amgueddfa a'r Cyngor Sir ar gael i gofnodi atgofion — boed ar lafar, ysgrifenedig neu luniau — gan y cyn-chwarelwyr a'u teuluoedd. Felly, mawr hyderir y bydd nifer yn manteisio ar y cyfle hwn i ddod yn ôl i gofio'r dyddiau hynny pan oedd y Chwarel yn gweithio. Bydd croeso cynnes, a phaned, yn disgwyl pawb i'r aduniad. Os am fy o wybodaeth ynglŷn â'r aduniad yna cysyllter ag Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis.

GŴYL GÊMAU

Yn ddiweddar gwelwyd cychwyn cynllun chwaraeon newydd gan ysgolion cynradd y dalgylch. Bwriedir rhoi cyfle i fwy o blant fwynhau amrywiaeth fwy eang o chwaraeon ac i gael cyfle i fod yn rhan o dîm.

Cynhaliwyd yr ŵyl gyntaf ar brynawn Gwener, Ebrill 29, ar gaeau Ysgol Brynrefail. Roedd tri gweithgaredd, sef pêl-droed, pêl-rwyd ac uni-hoc. Bu 135 o blant o'r holl ysgolion wrthi'n frwd iawn yn ystod y prynawn a braf oedd gweld plant o ysgolion bychain y dalgylch yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gêmâu tîm.

Er nad cystadleuaeth rhwng ysgolion yw bwriad y cynllun roedd pawb am wybod pwy oedd yn fuddugol ar ddiwedd y pnawn! Bu pob cystadleuaeth yn glôs iawn a bu'n rhaid defnyddio gwahaniaeth goliau ym mhob cystadleuaeth. Bethel enillodd y pêl-droed a phêl-rwyd a phlant Deiniolen oedd y gorau am drin y ffyn hoci.

Wedi'r Sulgwyn bwriedir cynnal gŵyl arall gan ganol-bwyntio ar athletau y tro hwn. Mae pawb yn edrych ymlaen yn barod.

N.S.P.C.C. NOSON CAWS A GWIN

Yn Seiont Manor
7.00 - 9.00 p.m.
Nos Fercher, Mehefin 8fed
Tocynnau £4.50
yn Garej Hafod Llanrug.
Raffl (cinio i ddau yn Seiont Manor)

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN
PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Sadwrn
10.00 - 4.30
Ffôn: Llanberis
870922**

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN 1994

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Coch, Llanberis, dydd Sul, Mai 1af. Arweinydd y gân oedd Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail, a'r organydd oedd Gareth Jones, Llanberis. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parchg John Pritchard, a chyfarfod yr hwyr gan Mr J. H. Hughes, Llanberis.

Plant Ysgol Sul Capel Coch a gymerodd ran yn y gwasanaeth dechreuol y prynhawn a gwragedd ifanc Capel Coch yn yr hwyr.

Gwobrwywyd y canlynol yn yr Arholiad Llafar:

Dan 8 oed: Sioned Eleri Brown, Cysegr; Sara Jones ac Ian Wyn Williams, Capel Coch; Lowri Ellen Owen a Dylan Wyn Owen, Rhiwlas; Elin Wyn Morris, Dinorwig; Gwenllian Ann Owen, Deiniolen. Dan 5 oed: Angharad P. Jones, Gweno Rees Roberts, Lowri Vaughan Jones a Ceri Roberts, Cysegr; Carwyn Jones, Capel Coch; Nia Wyn Thomas a Janine Williams, Rhiwlas; Sioned Mair Phillips a Rhian Wyn Morris, Dinorwig; Kayleigh Louise, Michelle Diane, Iola Thorman Jones, Nidan Gaffo Hughes, Emma Wyn Lovell a Daniel McGuigan, Deiniolen. Dan 6 oed: 1, Alun Glyn Owen, Rhiwlas; Donna Elizabeth Phillips, Dinorwig; Ffion Thorman Jones, Deiniolen; Sioned Wyn Jones, Michelle Allsup, Rhiannon Jones, Carys Hughes, Alaw Ceris a Gruffudd Siôn Pritchard, Capel Coch; Catrin Ann Parry, Nia Glyn a Rhys Wyn Huws, Cysegr; 2, Dylan Wyn Davies a Katy Pritchard, Brynrefail; Gethyn Rhys James, Deiniolen; 3, Dafydd Evans a Daniel Lloyd Roberts, Capel Coch. Dan 7 oed: 1, Elin Roberts, Lliffon Jones a Stuart Owen Williams, Capel Coch; Carys Rees Roberts, Cysegr; Ceri Bryn Morris, Dinorwig; 2, Elen Williams a Claire Pritchard, Brynrefail. Dan 8 oed: 1, Iwan Jones a Gethin Siôn Pritchard, Capel Coch; Robin Meredith Owen a Huw Deulyn Davies, Rhiwlas; Ffion Williams a Lois Wyn Huws, Cysegr; 2, Emma Vaughan Jones, Cysegr; Mathew Howard Barlow, Deiniolen; Sioned Thomas, Rhiwlas; 3, Mathew Roberts, Brynrefail; Dylan Evans, Capel Coch. Dan 9 oed: 1, Gwen Rowlands ac Iwan Morris, Cysegr; Amy Lambert, Brynrefail; Bethan Roberts a Dafydd Siôn Pritchard, Capel Coch; Robin Glyn a Urien Siôn, Deiniolen; 2, Manon Morris Evans, Capel Coch; Gethin Vaughan Jones, Cysegr; 3, Manon Davies a Nia Catrin Jones, Cysegr; Claire Williams, Deiniolen. Cydadrodd dan 9 oed: 1, Triawd Cysegr. Dan 10 oed: 1, Meirion Owen, Rhiwlas; Gwenan Jones, Arwyn Owen ac Aled Vaughan Roberts, Cysegr; Rhodri Glyn ac Urien Siôn, Deiniolen; 2, Sara Barlow, Deiniolen; Bethan Jones, Cysegr. Dan 11 oed: 1, Ceri Wyn Jones, Rhiwlas; Ifan Rowlands a Jennifer Jones, Cysegr; 2, Marc Evans, Capel Coch. Dan 12 oed: 1, Gethyn Gruffudd Owen, Rhiwlas; Alaw Mari, Deiniolen. Dan 13 oed: 1, Delyth Morris ac Anest Williams, Cysegr; 2, Gwynfor Jones, Cysegr. Dan 16 oed: 1, Llinos Morris, Cysegr. Oedolion: 1, Mrs Falmai Pritchard; Mr Gareth Jones, Capel Coch; Mrs Eunice Jones, Rhiwlas; Mrs Nora Parry, Mrs Rita Williams, Myfanwy Jones, Cysegr; Mrs A. Thomas, Cefnwyau.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i aelodau a swyddogion Capel Coch am ymgymryd â'r Gymanfa. Diolch am y trefniadau trylwyr i sicrhau Cymanfa lwyddiannus eto eleni. Diolch am y te ac i'r rhai a fu'n ei baratoi — roedd yn ardderchog. Diolch o galon i bawb yn Capel Coch.

O SIAMBAR SELWYN

Ers talwm mis Mai oedd y mis gorau o holl fisoedd y flwyddyn gen i, a hawdd fyddai gen i gytuno ag Eifion Wyn — 'Gyda dydd fy ngeni innau — gwyn fy myd bob tro y dêl.'

Bellach, mae pob mis Mai yn dod heibio yn rhy sydyn o beth coblyn — yn union fel mae pob Nadolig yn dod. Ia, henaint ni ddaw ei hunan.

A dyma fi unwaith eto yn ganol mis Mai, a minnau yn teimlo rhyw wacter yn fy mywyd am fod y tymor pêl-droed wedi dod i ben.

Mi deimlais i'r gwacter yn fwy eleni rhywsut yn enwedig ar y Sadwrn ola o Ebrill pan lenwid y Spion Kop yn Lerpwl am y tro ola.

Pan oeddwn i yn hogyn bach ym Methel ers talwm, roedd Lerpwl ymhell, bell i ffwrdd. Roedd o'n le mawr a rhaid oedd mynd drwy dri thwnel a thros ddwy bont i fynd yno.

Yn ddiweddarach, a minnau yn fy arddegau cynnar, roedd Lerpwl yn beryglus o agos.

Roedd na ryfel yn Lerpwl. Ac yn ymestyn o'r fflamau roedd na chwiloleuadau fel croesau o arian byw yn hollti'r ffurfafen gan chwilio'r nos am eryrod y Luftwaffe.

Dw i'n cofio'r nosweithiau pryderus di-gwsg rheiny. Swn trwm awyrennau Hitler yn pasio dros Fethel ar eu ffordd i Lerpwl i ollwng eu wyau gwae ar goelcerth y ddinas. Ac yno fe welid hen wragedd crymanog, dan amdo'r mwg, yn crafu lludw'r adfeilion am weddillion aelwyd. A baban y gelain, yn arch gynnau ei grud.

A rhyfel Lerpwl fu'n gyfrifol am i Miss Taylor ddod acw i 'lodgio' hefo ni. Athrawes ifaciwis oedd Miss Taylor, a bu'n aros ym Mryn Alun am gyfnod tra'n dysgu'r ffodaduriaid yn Ysgol Bethel.

A thua diwedd y rhyfel — pan oedd Robb Wilton yn atgoffa ffyddloniaid yr Empire am 'y dydd y torrodd rhyfel allan', a Tommy Handley yn ffwrdd o ffraethineb o Neuadd y Penrhyn, Bangor — roeddwn i'n cael mynd i aros dros wyliau'r ysgol i gartre Miss Taylor. A dyna pryd y bwm i ar y Spion Kop am y tro cynta. Cael fy ngwasgu ymhlith yr ugain mil neu fwy, a siglo'n feddw fel gwenith yn y gwynt dan gantel y Kop. Cofiwch roedd na 60,000 a mwy yn tyrru i Anfield

a Goodison y dyddiau hynny. Rwy'n dal i gofio rhai o'r arwyr — Cyril Sidlow yn y gôl, Rayl Lambert y cefnwr. Bu'r ddau yma yn chwarae i Gymru ar sawl achlysur. A phwy all anghofio y Sgotyn Billy Liddell? Roedd hyn cyn i 'Dodd' a'i dylwyth 'diddy' ddod i'n goglais â'i ddwster o Knotty Ash, a chyn i'r miwsig trydanol arllwys o Ogof y Cavern yn rhacadr o swn — gan ysgytio'r byd.

Ia, dyddiau braf oedd rheiny o dan gantel y Spion Kop, ac er na fûm i yno ers blyneddau bellach, fedrwn i ddim llai na theimlo'n drist ar y prynhawn Sadwrn hwnnw pan safodd y ffyddloniaid ar y Kop am y tro olaf.

Ys gwn i sut y byddai y diwedd annwyl Athro Bedwyr Lewis Jones yn teimlo? Dyna chi gefnogwr ffyddlon i Lerpwl. Mi fyddai Bedwyr yn treulio rhan o'i wyliau haf yn Lerpwl er mwyn cael mynd i weld y tîm yn ymarfer yn Mellwood. Roedd Bedwyr yn un o'r miloedd a ymwelodd ag Anfield ar ôl trychineb Hillsbro pan drowyd y Kop yn allor goch o liwiau.

Rwy'n cofio Bedwyr yn deud wrtha i ar ôl y profiad hwnnw — 'Pe bawn i'n fardd mi ganwn i gân fawr i'r digwyddiad.'

Ac ar Sadwrn ola Ebrill 1994 wrth wrando ar y ddrama fawr yn dirwyn i ben ar y radio fedrwn i ddim peidio â theimlo rhyw iasau trydanol yn llifo drwy fy ngwythiennau i, wrth synhwyro'r cynnwrf ar organ y gwynt, a swn emynau'r Kop yn hollti'r awyr.

*Gwyn eu byd y ffyddloniaid
fu'n addoli'r cochion
ar deras y Kop
— canys eiddymt oedd gwefr buddugoliaethau.*

*Gwyn eu byd y ffanatics
a fu'n siantio'r salmau
pan oedd Rush a Dallgish
yn mesmerio'r ymweltwyr,
— canys eiddymt oedd ias y cyffro.*

*Gwyn eu byd yr hen sgowsars
sy'n cofio ffraethineb Shanks,
telepathi Keegan a Tosh
a dewiniaeth Saint John,
— canys eiddymt yw seiadau
o ddadlau hyd at daro.*

*Gwyn eu byd y don ddydol
fu'n siglo'n feddw, fel gwenith yn y gwynt
dan gantel y Kop
— clywaf eu llw
'nad unid fydd teithiau'r cochion
i bellteroedd daear.'*

*A phan ddiffydd y llifoleuadau
a phan ddol'r nos i ostwng ei mantell
dros deml Anfield,
ymddengys sêr o'r cysgodion,
i fflachio'n ddisglair ar fideo'r cof.*

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 1994-95 fydd John Selwyn Williams, Brynrefail, a'r Is-gadeirydd fydd Elwyn Jones, Rhiwlas.

Penderfynodd y Cyngor anfon at y Prif Gwnstabl i ddatgan eu hanfodlonrwydd ynglŷn â chymal yn eu polisi dwyieithog — 'Gall aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg gyda'r Heddlu hwn, os bydd hyn yn rhesymol ac yn ymarferol'.

Barn Cyngor Llanddeiniolen yw y dylai'r cyhoedd gael yr hawl i gyfathrebu ag unrhyw aelod o'r heddlu ar unrhyw achlysur a hynny yn Gymraeg os dymunent.

DRAENOG



Clywyd sôn fod Cyngor Sir Gwynedd wedi anfon cais i Senedd Ewrop am grant arbennig i'w galluogi i symud pob polyn lamp rhwng Y Ddôl, Bethel, a Chlwb Criced Bangor yn Llandegai.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd**

**Drwy haelioni cyfaill i'r Eco
mae gennym 120 copi o**

TRAETHODAU AR WAEN GYNFI
ar werth am £1 yr un.

Argraffiad newydd o Draethodau Buddugol yng
Nhylchwyl Undebol Llenyddol Deiniolen 1868

Cysylltwch â

DAFYDD WHITESIDE THOMAS

BRON Y NANT, LLANRUG, CAERNARFON

Ffôn: (0286) 673515

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
✂ **GARNET, LLANRUG**
Ffôn: **673981/675807**

'Un funud fach . . .'

YMWELYDD

Mae 'na ddau fath o bobol ddiarth: rhai hynny sy'n trefnu ymlaen llaw i alw heibio, a rhai sy'n dod draw yn ddirybudd. Ydach chi'n un o'r bobol 'na fyddai'n meiddio ymweld â neb heb roi o leiaf dridiau o rybudd? Ynteu un o'r bobol sy'n rhoi syrpreis i bawb rwy alw pan fyddwch chi'n digwydd pasio ydach chi? A beth sydd orau gennych? Cael digon o rybudd bod ymwelydd ar y ffordd ynteu cael bobol yn galw mwya' sydyn?

Ond o gael rhybudd ymlaen llaw, be wnewch chi wedyn? Gwneud eich trefniadau yn ddi-lol a setlo nes bydd y bobol ddiarth yn cyrraedd? Mynd i banic llwyr wrth feddwl am yr holl waith sydd raid ei wneud? Bwrw 'mlaen â'ch gwaith heb feddwl dim am y bobol ddiarth nes iddyn nhw ddod? Gweld pob munud fel oes wrth edrych ymlaen am eu gweld?

Echdoe roedden ni'n dathlu'r Sulgwyn, ac yn cofio am yr Ysbryd Glân yn cael ei roi i'r disgyblion. Roedden nhw wedi cael addewid y byddai'r Ysbryd yn dod arnynt, ac wedi bod yn disgwyl yn eiddgar amdano. Disgwyl yn weddigar yn ôl a ddysgwn amdanynt yn y Beibl. Daeth yr Ysbryd fel ymwelydd, a daeth i aros efo nhw; daeth i fyw yn eu calon i'w harwain a'u dysgu a'u cysuro. Ac mae'r Ysbryd Glân yn dal i fod efo pobol Iesu Grist o hyd; yr Ysbryd hwn sy'n eu galluogi i gredu'r Efengyl ac i ymdrechu byw er mwyn yr Iesu. Ond mewn ffordd arall mae'r Ysbryd yn gallu bod fel ymwelydd o hyd, yn dod ar adegau mewn modd arbennig at ei bobol. Dod i fyw hâu ei eglwys; dod i argyhoeddi pobl o'u hangen am Waredwr; dod i lwyddo gwaith yr Efengyl. Y math o ymweliad ag a gafwyd mewn diwygiadau o'r blaen yn hanes ein gwlad.

A gall ymweld â ni felly eto. Ond sut rai ydan ni am ddisgwyl yr ymweliad yma? Mi fedrwn eistedd nôl heb gredu ei fod yn debygol o ddod? Mi fedrwn fod yn flin a diamynedd wrth ei weld yn oedi rhag dod. Neu, mi fedrwn weddio ar iddo ddod a cheisio rhoi ein tŷ mewn trefn yn y cyfamsr.

JOHN PRITCHARD

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726



Plant a rhieni Cylch Meithrin Bethel yn dymuno'n dda i Mr Seiriol Owen cyn ei daith gerdded nodedig.

Diolch: Dymuna Mrs M. G. Williams, Gwylfa, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, am eu ffyddlondeb a'u caredigrwydd dros y misoedd diwethaf. Gwerthfawrogwyd ymweliadau cyson y Parchg Gwynfor Williams. Diolch hefyd i staff wardiau Hebog a Glaslyn, Ysbyty Gwynedd; Twrog, Ysbyty Eryri; Cairn, Ysbyty Walton; a Matron a staff Plas Maesincla. Diolch yn fawr i bawb.

Priodas Arian: Dymuna Emyr Wyn a Jean Jones, Wenallt, ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu holl ddymuniadau da ar achlysur eu Priodas Arian ar Ebrill 26. **Llongyfarchiadau** i Sioned Catrin Davies, Garth, am lwyddo mewn arholiad theori cerddoriaeth gydag anrhydedd.

Cydymdeimlo: Ddydd Gwener, Ebrill 29, bu farw Miss Megan Rowlands, 14 Bro Rhos, yn 81 mlwydd oed.

Yng nghartref Plas Pengwaith, ar Fai 8fed, bu farw Mrs Elizabeth Ellen Williams, gynt o 1 Tan y Bryn, yn 96 mlwydd oed.

Yn ystod y mis hefyd bu farw Mr John Morgan, Rhos-lan, yn 59 mlwydd oed. Hyd ei ymddeoliad yn 1989 roedd Mr Morgan yn brif Swyddog Tân Gwynedd.

Dydd Mawrth, Mai 17, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs K. A. Davies, Llwyn Celyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r pedwar teulu yn eu profedigaethau. **Twmpath i'r Teulu:** Ar nos Wener, Mai 27, am 7 o'r gloch, cynhelir Dawns Werin yn y Neuadd o dan nawdd cangen Plaid Cymru. Y galwr fydd Gareth Jones. Pris tocynnau, wrth y drws, fydd £1.50 i oedolion a £1 i blant a phensiynwyr. Croeso cynnes i bawb. Noson i'r teulu fydd hon felly

dowch yn llw am hwyl a sbri.

Newyddion o'r Ysgol: Rydym yng nghanol tymor prysur iawn yn yr Ysgol. O 16-20 Mai bu 44 o blant blyneddodd 5 a 6 yng Ngholeg Glynllifon a chafwyd wythnos fendigedig yno yn cerdded y llwybrau, chwarae gêm a dysgu tipyn am y Plas yng nghyfnod Oes Fictoria. I goroni'r wythnos cafwyd disgo swnllyd i bawb cyn dod adref yn saff, ond yn flinedig, fore Gwener.

Dyma dymor y triplau ysgol sydd wrthi'n cael eu trefnu — ceir manylion yn ddiweddarach. Mae'r côr wrthi'n brysur yn ymarfer at y Sioe Gerdd ym mis Mehefin. Bydd plant Bl. 6 yn cymryd rhan mewn pnawn gêm yn Ysgol Brynrefail cyn cael cyfarfod i ffarwelio ag Ysgol Bethel.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o dan lywyddiaeth Eirlys Williams. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Menna, merch Rita Williams, fydd yn ddeunaw oed y mis nesaf; dymunwyd yn dda i Richard, mab Eirlys Sharpe, ar ei briodas â Nia. Cafwyd noson arbennig o hwyllog yng nghwmni Judith a Heulwen a chafwyd cyfle i ddawnsio nifer o ddawnsfeydd gwerin. Diolchwyd iddynt gan Jên Roberts. Enillydd y raffl oedd Ann Lewis. Mair Rea, Jên Roberts ac Alys Jones oedd yng ngofal y te. I ddiweddu'r tymor bydd taith ddigrl ar Fehefin 8. Pawb sy'n bwriadu mynd rhwch wybod i Nora Parry neu Eirlys Williams. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 6.45 o'r gloch.

Yr Urdd: Bu chwe aelod o'r gangen yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r Cylch yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Er na chafwyd llwyddiant

eleni fe wnaeth pawb ei orau. Yn cynrychioli'r gangen yr oedd Cefin Williams, Gethin Jones, Ellen Jones, Ffion Williams, Cadi Ostler ac Angharad Sturrock.

Cyfarfod Pentymor: Nos Fawrth, Gorffennaf 12, am 7 o'r gloch, y cynhelir Noson Pentymor Ysgol Sul y Cysegr. Gwahoddir pawb i'r festri am baned, sgwrs a chân.

Gwasanaethau'r Cysegr am fis Mehefin:

5: Parchg Emllyn Jones, Dwyrân, yn y bore.

12: J. E. Jones

19: Parchg Isaac Jones, Abergele

26: Y Gweinidog

Plygu'r Eco: Tro Bethel fydd hi i blygu rhifyn nesaf o'r Eco. Taer erfynir ar i griw da ddod i'r Neuadd am 6.30, nos lau, Mehefin 30, i helpu gyda'r gwaith.

Y Cylch Meithrin: Bydd Mr Seiriol Owen yn cerdded 123 o filltiroedd gan ddechrau yn Nhrefyclo ar Fai 14 gan ddiweddu yn Hope ar Fai 22. Mae tua £250 o arian nodd i wedi'i gasglu yn barod ac mae addewid am oddeutu £200 arall. Bydd y Cylch yn elwa o'r daith. Diolch i Mr Owen ac i bawb a'i noddodd.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol y Cylch Meithrin yn y Caban Meithrin am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Mehefin 15fed. Bydd cyfle i rieni'r plant fydd yn cychwyn o'r newydd o fis Medi nesaf i gyfarfod â'r athrawon am 7 o'r gloch y noson honno. Bydd y pwyllgor yn falch o'ch cefnogaeth yn y cyfarfod hwn.

Sioe Rala Rwdins — mae criw o blant a'u rhieni yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld y sioe 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla' ar fore lau, Mehefin 30. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau eu hunain.

Clwb 200 y Neuadd: Enillwyr mis Ebrill oedd — £20: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (126); £10: Mrs Margaret Bardsley, Windy Corner (217); a £5 yr un i Julie Aston, Llys Awel (118); Joan Ginsberg, 2 Celtic House (156); Jean Hughes, Nefyn (166); Griffith Jones, Trigfa, Erw Bian (205); Richard Parry, Rhos-lan (34); Dafydd Jones, 10 Tan-y-buarth (127); Falmal Owen, 2 Fron Heulog (59); Huw Jones, Cefn (100).

Clwb 100 Yr Ysgol: Enillwyr mis Mai oedd — £20: Mrs Sian Jones, Llain y Grug, Mynydd Llandegai; £15: Mr a Mrs G. E. Jones, Cororion, Tre-garth; £10: Mrs Doris Williams, 12 Ffordd Pandy, Caernarfon; £5: Elen Jones, 14 Tan-y-buarth; £3: Lorraine Herbert, 1 Ty'n Llan Isaf, Llanddeiniolen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513**



♥ Gemi ♥ Bedyddio ♥ Iŵed ♥ Priodas ♥

✱ Achlysur arbennig? ✱
✱ Arianheg unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

✱ Gynffurfir pob samplwr
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.d.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

ERIC JONES ★ Prisiau
PENISARWAUN ★ rhesymol
★ Spreio tu
mewn a
thu allan
★ Estimates
am ddim

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

DIM MARCIAU

Roedd dathlu mawr yn Newcastle a Blackburn ddiwedd y tymor. Nid bod yr un o'r ddau dim pêl-droed wedi ennill tlws, ond fe enillon nhw'r hawl i gystadlu yn Ewrop y tymor nesaf. Mae Kevin Keegan a Kenny Dalglish yn deall gwerth hynny'n dda. Wedi teithio Ewrop efo tîm Lerpwl mae'r ddau yn gwybod mai cystadlu yn Ewrop yw un o binaclau gyrfa chwaraewr pêl-droed. A dyna pam na fedraf yn fy myw ddeall ymateb Cadeirydd Clwb Pêl-droed Tref Caernarfon i lwyddiant tîm Bangor yng Nghynghrair y Konica eleni. Meddyliwch mewn difrif: Bangor yn bencampwyr cenedlathol; uchafbwyntiau'r gêm ar y teledu ar nos Sadwrn; 2,300 yn y dorff ar gyfer y gêm olaf ym Mhorthmadog; Radio Cymru a Radio Wales yn darlledu'r gêm honno'n fyw; cael cystadlu yng Nghwpan UEFA. A chadeirydd Caernarfon yn mynnu bod gwell ganddo fo a'i glwb stryffaglio i arbed disgyn o gynghrair yr HFS gerbron llond dwrn o gefnogwyr ar dŷ haf o gae yn Curzon Ashton. A wnaiff hi mo'r tro chwaith i ddadlau y byddai safon pêl-droed yn disgyn wrth ddychwelyd i Gymru. Beth am lwyddiant y Rhyl yn cyrraedd ffeinal Cwpan Cymru y llynedd a'r Barri yn mynd gam yn well eleni a chipio'r Cwpan? Pryd wnaeth yr un o'r ddau hynny ddiwethaf tra'n cystadlu yn Lloegr? Marciau llawn i Fangor ond dim marc o gwbl i Gaernarfon.

A dim marciau chwaith i drefnwyr Cynghrair Pêl-droed Ieuenctid Gwryfai a drefnodd bod rowndiau terfynol y cystadlaethau cwpan yn cael eu cynnal ar y Sul yn ddiweddar. Cynhaliwyd twrnament i dimau dan 10 oed ar yr un diwrnod. Roedd y plant wedi edrych ymlaen at y twrnament ar ddiwedd y tymor, a siom fawr oedd i lawer ohonynt sylweddoli na fyddai modd iddyn nhw chwarae ynddo wedi'r cwbl. Roedd llawer o rieni yn siomedig bod cystadleuaeth o'r fath yn cael ei chynnal ar y Sul. Dadl y trefnwyr oedd bod y twrnament wedi ei symud i'r Sul am fod y Cup Final ar y dydd Sadwrn. Mae yna ddigon o Sadyrnau eraill ar gael.

A dim marciau chwaith i Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Gwynedd am y gwaith arlunio chwit-chwat a wnaed ar lonydd Llanberis. Pwy tybed benderfynodd lle dylid paentio'r llinellau melyn ar ymyl y lonydd. Llinellau melyn ar ddarn syth, llydan o ffordd — dim llinell ar dro cul — llinellau melyn ar ddwy ochr lôn sy'n mynd i unlle (a hynny er mai ar un ochr i'r lôn y bwriadwyd gosod y llinellau yn wreiddiol) — camfesur ambell linell. Canlyniad hyn i gyd? Mwy o geir yn parcio ar y Stryd Fawr, a hynny ar ambell dro digon peryglus hefyd. Roedd angen gwneud rhywbeth am broblem parcio yn Llanberis, ac mae'n ymddangos mai RHYWBETH RHYWBETH a wnaed hefyd, heb na sens na synnwyr mewn ambell fan. B.R.

CYNGERDD

YNG NGHWMNI

LLEISIAU'R GWEUNYDD
a'u cyfeillion

YN NEUADD Y PENTREF
RHIWLAS

Nos Wener, 30 Medi 1994

GWYLIWCH YR ECO AM
FWY O FANYLION

PERERINDOD ISRAEL

Sadwrn, 18 Chwefror 1995
i'r Sul, 26 Chwefror 1995

Cyfle i ymuno â chwmni o
Gymry Cymraeg ar bererindod
naw diwrnod i wlad gyfareddol.


Manylion pellach gan:

Y Parchg Olaf Davies

Llys Cerdd

Ffordd Crwys, Bangor

(0248) 364613



CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r
Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon
amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes

Tan y Clogwyn

LLANBERIS, Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (0286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain
1993. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl dyddiad
cau penodedig.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnio
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio

Trin Cyrff

H.P. ar gael

+

**J.M.
JONES**
A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:

C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

YSGOL BRYNREFAIL



Bu dau o gyn-chwarelwyr Chwarel Dinorwig, sef Mr Hugh Oliver Jones (uchod) a Mrs Harry Geoffrey Roberts (isod) o Lanrug yn siarad â phlant Blwyddyn 7 am eu gwaith yn y Chwarel. Cafodd y plant gyfle i'w holi am eu profiadau, a chafwyd prynhawn difyr ac addysgiadol yn trafod y cyfnod pan oeddynt hwy'n gweithio yn y Chwarel.



ANTUR PADARN

Ceisio darganod anghenion busnesau bychain fydd pwrpas arolwg a gynhelir gan Antur Padarn yn ystod y misoedd nesaf. Mewn cyfarfod o'r Antur, a gynhaliwyd ar nos Iau, 12fed o Fai, adroddwyd bod holiadur ar gyfer cario allan arolwg o'r fath wedi'i baratoi ac y bydd copïau ohonno ar gael yn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r aelodau fynd o gwmpas busnesau bychain yr ardal.

Yn yr un cyfarfod soniwyd bod yr Antur mewn cysylltiad â Mr Tom Jones, Swyddog Undeb Gweithwyr Cyffredinol a Thrafnidiaeth ynglŷn â gwella cyflwr safle Craig yr Undeb, Penllyn, a'i fod ef yn awr yn y broses o geisio gweithredu ar y mater. Mae'n dda gallu adrodd fod unigolion a Chynghorau Cymuned y dyffryn yn cefnogi syniad Antur Padarn yn hyn o beth. Mawr obeithir y gwelwn weithredu buan ar y mater pwysig hwn.

Adroddodd y Cadeirydd bod trefniadau i gynnal cyfarfod arbennig i gofio achlysur cau Chwarel Dinorwig yn mynd ymlaen yn dda a diolchwyd am

gefnogaeth Amgueddfa'r Gogledd; Cyngor Sir Gwynedd; a'r Cynghorau Cymuned lleol yn yr holl waith.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar **nos Iau, Mehefin 16eg, am 7.00 o'r gloch, yn Ystafell Gymuned, Penisar-waun.** Fel arfer bydd croeso cynnes i unrhyw un o'r dyffryn ddod i'r cyfarfod. Dewch i gefnogi gwaith yr Antur.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Boda fon (Waunfawr 799)

Cydymdeimlad: Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Mrs Olwen Jones, Fferm y Garth, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer o Efailnewydd, a fu farw yn Ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli. **Genedigaeth:** Ganwyd mab, Owain Bryn, i Gwenno a Keith Doyle o Fethesda ar y 4ydd o Ebrill, brawd bach i Gareth leuan ac ŵyr i Ifan a Helen Parry, Morwel, Ceunant. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

Cefnogwch ein Hysbysebwy



Stanley Griffiths o Harrogate (gynt o Gwm-y-glo) un o 'ddarllenwyr ar wasgar' yr Eco a fu yn ymweld â'r fro yn ddiweddar.



Efallai y buasa ni yn coelio mai 'leg slip' ar y clutch fu'r problem; neu hyd yn oed fod y Cyngor wedi rhoi y lamp mewn 'silly point' — ond paid a disgwyl i ni goelio y stori 'na am y gath!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277




Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD (CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

CHWILOTA SALWCH Y WAENFAWR



Ddaeth neb i gysylltiad â mi ynglŷn â'r hen Ddoctor Cwac. Tybed oes gwybodaeth amdano ar gadw yn rhywle? Wrth bori yn ddiweddar drwy gofrestrau plwy yng Nghaernarfon, deuthum ar draws cyfnod pan allasai'r Doctor fod wedi bod o fudd i ardal y Waen.

Yn 1840 roedd 31 o farwolaethau yn y fro, a 22 ohonynt yn blant wyth oed neu ieuengach. Bu'r cyfan farw o'r 'scarlatina' — y scarlet fever, mae'n debyg. Cychwynnodd yr haint ym mis Ebrill o'r flwyddyn honno pan fu farw dau o blant. Roedd ar ei gwaethaf ym misoedd Mehefin a Gorffennaf pan fu farw naw plentyn, ond bu farw dau blentyn bob mis hyd Dachwedd pan liniarwyd peth ar yr afiechyd. Tybed ai'r un haint a laddodd wr ifanc wyth ar hugain oed yn Chwefror 1841 — scarlatina eto sydd gyferbyn ag achos ei farwolaeth.

TAFARNARU'R WAEN . . .

Meddyliais erioed am Fethel a'r Waenfawr fel pentrefi di-dafarn (hyd yn ddiweddar). Ond yn ystod y ganrif ddiwethaf roedd nifer o dafarnau ym mhentref y Waenfawr. Dyma rai: Four Crosses (1853); King's Head (1867); Quarryman's Arms (1880); a'r Eagles (1895). Mae'r dyddiadau yn cyfeirio at gofnodion ynglŷn â'r tafarnau, ac nid at ddyddiad eu hagog. Oes mwy i'w hychwanegu at y rhestr? Ble oedd y tafarnau a enwyd? Diddorol fyddai cael lluniau rhai ohonynt.

'STEDDFOD CAEATHRO . . .

Gan Mrs W. A. Jones, Llanrug, y cefais gopi o'r penillion molawd i Blas Glangwna — cyd-fuddugol mewn eisteddfod yng Nghaeathro bron i gan mlynedd yn ôl. Y ddau fardd buddugol oedd John R. Jones (Painter), Glangwna; a J. D. Jones, Caernarfon, a'i galwai ei hun yn Dewi Glan Teifi. Cynhaliwyd yr eisteddfod, neu'r 'Gylchwil Lenyddol' ar Fawrth 21ain, 1896. Pwy oedd y beirdd tybed, ac a oes rhywun sy'n medru adrodd rhywfaint o hanes hen blasdy Glangwna?

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau
**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**
Ffôn: Waunfawr
650552

**GWASANAETH
DEINTYDDOL**

**O DAN Y GWASANAETH IECHYD
DYLAN THOMAS**

B.D.S. (Cymru), DEINTYDD


Y DDEINTYDDFA

39 STRYD Y CAPEL, CAERNARFON

Ffôn: (0286) 672914

Am bob math o
WYDR wedi'i
**DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.**
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

PENILLION I BLAS NEWYDD GLANGWNA

Cyd-fuddugol yng Nghylchwil Lenyddol
Caeathraw Mawrth 21ain, 1896

Wel! dyma balasdy ardderchog,
Ai gynllun yn hynod o hardd,
Mawrygir yr orwych olygfa
Gan lawer boneddwr a bardd.
Ei sail sydd ar lanerch dymunol,
Am dano mae llawer o sôn.
'Rwy'n credu na cheir ei gyffelyb
Er chwilio o Fynwy i Fôn.

Wrth syllu yn fanwl canfyddais
Waith celfydd ar aswy a'r dde,
Yn naddu y meini yn drefnus
A gosod pob un yn ei le,
I godi'r adeilad i fyny
Yn addurn rhwng brynïau ein gwlad.
I'r gweithwyr a fu yn llafurio
O, rhoddwn yn rhwydd y mawrhad.

Mae'r coed yn ei furiau yn fawrwych
Mewn cerfwaith gwahanol eu rhyw
Ac aml i wyneb a welir
Yn edrych fel pe baent yn fyw.
Y dderwen yw'r pren a ddewiswyd
I gynnal y cyfan nghyd.
Pa balas mor gryf a Glangwna
Mae'n ail i hen gestyll y byd.

'Nol treulio rhyw ysbaid o amser
Fel llawer ymwelydd a'r frô,
Gan synu wrth weld fath amrywiaeth
Nas gallaf eu gollwng o'm cô'
Mae'r porth sydd yn arwain i'r palas
Yn gywrair o'r sylfaen i'r pen
Gwaith dwylaw saer medrus fu'n llunio
Y dorau cadarnaf o bren.

O fewn i'r adeilad er syndod
Canfyddais ryfeddod oedd fwy
Yr holl ystafelloedd yn oleu
Gan drydan disgleiriach na'r nwy.
O tan ei belydrau tanbeidiol
Mor swynol oedd syllu am dro
Ar amryw wrthddrychau'n disgleirio
Glangwna yw brenin ein bro.

Hardd feini o fynor sydd hefyd
O amgylch yn fawrion a mân.
Priddfeini amryliw ddanghosant
'R'aelwydydd yn drefnus a glân.
Dymunaf hir oes i'w berchenog
A'i deulu i fyw mewn mwynhad,
Yn mhalas ardderchog Glangwna
Yr harddaf a welir trwy'r wlad.

(Ap Emrys), sef Mr John R. Jones
(Painter), Glangwna.

EI GYDFUDDUGOL

Plas newydd Glangwna yw testyn fy ngân
A thestyn gyneua fy awen yn dân:
Gan fod byw gynhesrwydd o'm mewn at yr hên
Mae'n hawddach i'r newydd gael llinell o'm llên:
Sai'r hen yn ei ymyl gan edliw'n eiddigus
Ei ddod i'w yspeilio o'i urddas clodforus.

Mae cynllun y Newydd yn newydd i ni.
Un geidw'r cynlluniwr am oesau mewn bri:
Fe'i ffurfir o'r meini cadarnaf erioed,
A'i wyneb a'i ochrau addurnir a choed;
A bellach, dechreuau dan law dlôs celfyddyd
Watwaru yr Hên, a balchio'n ei ienctyd.

Try'i gefn tua'r mynydd a'i wyneb i'r môr
Lle gorwedd cyfrinion y Crewr yn 'stôr.
Edrycha'n urddasol a balch fel y paun
Sy i gyd yn llawn tlysau amryliw a châin;
O! fel mae Celfyddyd yn gwneuthur y garw
A'r dilun yn brydferth, a'r pygddu'n dryloew.

Mae natur o'i amgylch mor Ddwyfol o dlôs.
Yn golchi y lili, yn gwrido y rhôs:
Blagura ei bywyd ar unwaith a'm pill,
Trwy wenau'r erilwysion, y breill, a'r mill,
Prophwydi'n rhagdraethu ar feddrod y Gwau',
Fod Gwanwyn yn dyfod i harddu Glangwna.

Ysguba'r iach awel oddiwrtho bob haint,
A'i gadw mewn glendid wna dwfr afon Saint.
Bydd hon iddo'n gwmni drwy'r oesau i'w fêdd
A'i murmur a dora ddistawrwydd ei hêdd;
Os na thyf Caeathraw yn fawr mewn oferedd
A'i rwystro i fwynhau 'r tawelaf unigedd.

O! boed y Plas Newydd yn gartref yn hir
I Greaves, arglwydd raglaw godidog y sir.
A bydded yn borth i drugaredd gael lle,
I estyn elusen i'r tlawd dros y Nê;
Bydd hwn cyn pen nemawr yn breswyl dedwyddyd
Gall cyfoeth wneyd popeth bron, ond adfer bywyd.

(*snowdrops)

(Ap Chwefror), sef Mr J. D. Jones (Dewi Glan Teifi)
Carnarvon

NEFYDD HUGHES CADFAN . . .

Gyda diolch i bawb am eu hymateb i hanes a gwaith yr uchod. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol bellach wedi cael gafael ar y stori, ac yn trosglwyddo gwybodaeth i awdur a gomisiynwyd i sgwennu llyfr ar lenorion y Wladfa. Mae'r Eco yn cyrraedd ymhell!

Cofiwch anfon gair i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Ffôn: (0286) 673515.



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Llongyfarchiadau

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau, ar ddod yn hen daid a hen nain, ganwyd mab bychan i'w wyres Carys a Mark ym Mangor.

Llongyfarchiadau i Treflyn ac Ann Thomas, Treforfan, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bychan, Cain, i'w mab Dafydd a'i wraig Wendy.

Llongyfarchwn Gwenda ac Eurwyn, Trefeddyg, ar enedigaeth mab bychan, Dafydd Meirion, brawd bach i Huw.

Llongyfarchiadau i Sara a Rolant, Y Bwthyn, Stad Croes-y-waun, ar enedigaeth merch fach, Ffion Angharad.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Heddu Gwynedd, nant, a Llio Mair, Llwyn Onn, bu'r ddwy yn llwyddiannus yn yr arholiad theori cerdd gradd 5. Bu Ifan Glyn a Steffan Elidir yn llwyddiannus yn arholiad canu'r piano, gradd 1. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Dathlu Pen-blwydd: Yn ystod y mis dathlodd Cartrin Lowri, Stad Croes-y-waun; a Susan Beech, Bronallt, eu pen-blwydd yn 18 oed; a dathlodd Awen Parry, 1 Bryn Golau, ei phen-blwydd yn 21 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i'r dair ohonynt.

Ymdeoliad Hapus: Dyna a ddymunwn i Mr Raymond Parry, Ffridd Felan, ac i Mr Gwynedd Williams, Bro Waun.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion y ddiweddar Miss Kate Humphreys, Isfryn gynt, a fu farw'n dawel yng nghartref nyrsio Plas y Bryn, Bontnewydd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Eric Wyn Williams, 8 Bro Waun, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Zoe Evans, 6 Dôl Erddi; Mrs Heulwen Jones, Cynant Lodge; a Mr Stanley Williams, Cefn Coed, adref o'r ysbyty. Rydym yn falch o glywed eich bod yn gwella ar ôl cael triniaethau.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at rai o'r pentref sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Yr Urdd: Bu rhai o'r aelodau yn cynrychioli'r gangen yng nghystadlaethau Mabolgampau'r Urdd ar gael Ysgol Syr Huw Owen, a bydd leuan Parry yn cynrychiol Cylch Arfon yn

Mabolgampau'r Sir, yn y gystad-leuaeth taflu pêl o dan 10 oed. Llongyfarchiadau iti leuan a phob dymuniad da yn y Sir.

Dymunwn yn dda hefyd i'r aelodau fydd yn cystadlu yn Nolgellau yn y gystadleuaeth Cân Actol ar ddydd Mercher, 1 Mehefin.

Camera'r Eco: Mae gennym gamera'r Eco ym mhentref y Waun. Os bydd rhywun angen y camera i dynnu llun ar gyfer yr Eco cysylltwch â Heulwen Huws, Argoed, (Ffôn: 650556).

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar nos lau, Ebrill 28, o dan lywyddiaeth Nan Huws-Roberts.

Oherwydd gwaledd ni allodd Mr Geraint George ddod atom ac ar fyr rybudd cafwyd noson ddifyr iawn yn ymweld â Patagonia drwy sleidiau yng nghwmni Mary Vaughan Jones. Diolchwyd i Mrs Jones gan Nan. Rhoddwyd y raffl gan Heulwen Huws ac fe'i henillwyd gan Gill Brown.

Diolchiadau:

Dymuna Karen a Dewi Morris, Llys Ifor, ddiolch i'w teulu, perthnasau, ffrindiau a chymdogion, am y nifer o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Gavin John.

Dymuna Carys Owen, Glyn Awel, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd, cardiau, blodau, anrhegion, galwadau ffôn, a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

Enillwyr Clwb 200 am fis Ebrill — £40: Mr Meirion Jones, Crud yr Awel; £25: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llain; £10: Mrs C. A. Weale, Ty'n Twll Bach.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd trip blynyddol i aelodau'r Gymdeithas nos Fawrth, Mehefin 21 yn ymweld â rhannau o Eifionydd, gyda phryd o fwyd ym Mhorthmadog ar derfyn y daith. Bydd y gost oddeutu £5 y person a gofynnir i'r rhai sydd yn bwriadu dod ar y trip roi eu henwau i Mr Stanley Williams neu Mr Rol Williams ar fyrder. Ceir mwy o fanylion ynglŷn ag amser cychwyn ac yn y blaen yn y man.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

TAITH I EFROG

gan blant Ysgol Dolbadarn

Aeth plant blwyddyn 4 a 5 ar fws yr holl ffordd i Efrog i wybod mwy am y Llychlynwyr. Pan gyrhaeddodd ni yno aethom ar drên amser yn ôl i oes y Llychlynwyr a mynd rownd modelau oedd yn siarad. Wedyn awr o drafaelio i westy yn Scarborough. Chafodd neb lawer o gwsgr!

Dydd Sadwrn aethom yn ôl i Efrog ac i bentref bychan Llychlynnaidd. Pentref Houlgate oedd ei enw. Roedd pawb wedi gwisgo fel Llychlynwyr. Fe wnaethom dorri i fyny i bump teulu a phawb yn cael tŷ bob un. Fi oedd tad teulu rhif 2.

Roedd rhaid glanhau y tŷ, gwneud blawd, casglu prisiau, bod yn filwr, gwneud potiau a thrwsio to gyda gwellt.


Bob tro roedd y pennaeth yn pasio roedd pawb yn gorfod mynd ar eu gliniau, plygu pen a dweud, 'Yes, my Lord.'

Roeddwn i yn gwisgo bands trafaelio am y tro cyntaf a rŵan fe alla i drafaelio i rywle yn y byd heb daflu i fyny!



IDWAL WILLIAMS



Dyma lun o pawb yn moesymgrymu i 'My Lord'.



Rachel Kerry



Idwal Williams



Jack wrthi'n brysur yn addurno'r crochenwaith. Mae'n defnyddio darn o bren miniog i wneud y gwaith.

Roedd pentref y Llychlynwyr yn wych, yn wych iawn. Cawsom weithio ar y fferm a gwelsom foch du, blewog oedd yn brathu fel siarc. Roedd cywion bach melyn yno ond os buasech yn codi'r cywion bach mi fuasech yn cael eich pigo gan y fam achos 'mond diwrnod oed oedden nhw.

Pan ddaeth hi'n amser cinio, cawsom wahoddiad i gael cinio gyda 'My Lord', y pennaeth. Gyda bys a bawd roeddem yn bwyta, wel sôn am hwyl! Cawsom gawl a rôl, pastai llysiau a salad, afal a chaws a bisgedi a diod oren o gasgen.

Wnewch chi fyth ddyfalu pwy oedd y caethweision! — yr athrawon, Mrs Pierce, Mrs Humphreys, Mrs Roberts a Mr Pritchard a nhw oedd yn gweinyddu arnom ni. Wrth roi'r bwyd allan dyma Mr Pritchard yn dwyn rôl o'r fasedg a gwelodd 'My Lord' ef ac o achos hyn fe gafodd ei glymu ar lawr.

Yna, cawsom adloniant. Cafodd 'My Lord' syniad, roedd rhaid i'r caethweision ddawnsio. Wedyn, cafodd Leif syniad. Roedd ef yn gwneud triciau gyda'i gleddyf. Roedd yn cydbwysu'r cleddyf ar gledd ei law, ei dalcen, gŕen, pen ysgwydd a'i droed.

Toedd y cinio ddim i'w gael am ddim! Ar ôl i'r pennaeth orffen bwyta, roedd rhaid i ni fynd i weithio eto, ddwywaith caletach.

DELYTH, JOHN PAUL a BETHAN

NOSON Y DATHLU

LLONGYFARCHIADAU

Annwyl Olygyddion,

Gair ar ran papur bro LLAIS OGWAN i longyfarch ECO'R WYDDFA ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed gyda'r ddauganfed rhifyn.

Ni chyraheddwyd y garreg filltir hon ond trwy ymroddiad, dycnwch a dyfalbarhad nifer cymharol fychan o weithwyr. Dylech oll fod yn falch o'ch llwyddiant, gan fod graen ar bob rhifyn a'r cynnwys bob amser yn ddiddorol.

Dymunwn pob llwyddiant i'r dyfodol.

Yn gywir,

JOHN HUW EVANS

ar ran

Panel Golygyddol Llais Ogwan

Chwith: Dr Graham Groom o Euro-DPC yn cyflwyno cyfrol rwymedig i Mr John Grisdale, prifathro Ysgol Brynrefail; a John Roberts, Cadeirydd y Llywodraethwyr.



PRIF NODDWYR Y NOSON

Euro-DPC, Banc y Midland, Gwasg Gwynedd, Ffilmiau Bryngwyn, MANWEB, Matthew Brown-British Legion Llanberis, British Telecom, Grid Cenedlaethol, Cambrian Catering.

Noddwyr Eraill

Llun y Felin; Cenad; Cyngorau Cymuned Llanrug, Llanberis, Llanddeiniolen a'r Waunfawr; Cymdeithas Tai Eryri; Owain Bebb; Siop y Modur; Cymen; Trefor Jones; Ffilmiau'r Nant; Bob Parry a'i Gwmni; Coleg Prifysgol Cymru.

Dde: Hywel Roberts a Julie Roberts o Fanc y Midland yn cyflwyno cyfrol o'r Eco i'r Dr Dafydd Roberts, Curadur Amgueddfa'r Gogledd.

CRONFA'R 200

Mawr yw diolch yr Eco i Noddwyr y Noson, y rhai a gyfrannodd yn ariannol yn ogystal â'r rhai a roddodd wobrau ar gyfer y gystadleuaeth a'r raffl. Rhwng popeth mae Cronfa 200 yr Eco wedi denu bron i £2000. Yn ogystal â chyfarfod â chostau Noson y Dathlu mae'r swm anrhydeddus yma wedi ein galluogi i rwymo tair cyfrol lawn o'r 200 rhifyn cyntaf o'r Eco a'u cyflwyno i sefydliadau o fewn y fro. Mae hefyd yn caniatáu i ni gyflogi person dros yr haf i lunio mynegai fydd yn galluogi unrhyw un sy'n chwilio am stori arbennig ei darganfod yn hwylus. Diolch o galon i bawb a'u cefnogodd.

Chwith: Alwyn Elis o Wasg Gwynedd yn cyflwyno'r drydedd gyfrol i Rhian Jacques, Llyfrgellydd Deiniolen.



DIGON O HWYL A CHYFLE I DDIOLCH I BAWB

Digon o hwyl a chyfle i ddiolch i bawb, dyna oedd bwriad y noson, a dyna yn ôl pob tystiolaeth pawb oedd yno a gafwyd. Daeth dros 200 o weithwyr a chyn-weithwyr yr Eco o bell ac agos i ganolfan Euro-DPC yn Glyn Rhonwy ar Fai 18fed i ddathlu'r 18fed pen-blwydd a chyhoeddi y 200fed rhifyn. Roedd o'n dipyn o barti. Llwyddwyd i gyfuno'n llwyddiannus iawn y ffurfiol a'r anffurfiol, y diolch a'r dathlu, yr atgofion a'r adloniant.

Cyflwynwyd cyfrolau rhwymedig o'r 200 rhifyn i Ysgol Brynrefail, Amgueddfa'r Gogledd a Llyfrgell Deiniolen, a clywyd am y gwaith sydd ar y gweill i lunio mynegai i'r 200 rhifyn cyntaf. Cafwyd hanes sefydlu'r Eco gan Arwel, y golygydd cyntaf, ac fe gronclwyd ei ddatblygiad dros y deunaw mlynedd gan gyfeirio at nifer o'r rhai a gyfrannodd at y datblygiad hwnnw. Cafwyd adloniant gan Hogia'r Wyddfa, Rosalind a Myrddin ac Annette Bryn Parry — y cyfan a'u hanes wedi ymddangos ar dudalennau'r Eco fwy nag unwaith mae'n siŵr. Noson hwyliog, noson gofiadwy, a phryd o fwyd gwerth chweil i'w choronni!

Diolch i John a phawb a fu'n gyfrifol am ei threfnu, a diolch i Gwyndaf am drefnu arddangosfa arbennig o luniau yn adlewyrchu cynnyrch yr Eco ers ei sefydlu yn 1976.



Cynrychiolwyr rhai o'r cwmnïau a chynghorau a noddodd y gweithgareddau.



Digon o fwyd a digon o hwyl.



Rhai o'r criw yn ceisio canu.



Cystal ag erioed.



Evan Parry, ffotograffydd cyntaf yr Eco, yn hel atgofion.

GWOBRAU RAFFL

- ★ 10 Gwobr gan ATS Caernarfon — MOT am ½ pris; balansio olwynion am ddim; tracio olwynion am ddim.
- ★ 1 'tune-up' Bosch gan AVW, Stad Cibyn, Caernarfon.
- ★ Gwerth £30 o gasetiau, tapiau, CDs neu fideos o gatalog Cwmni Sain.
- ★ Barbeciw o Currys, Caernarfon.
- ★ Potel o Wisgi o'r Co-op, Llanrug.
- ★ Gwerth £10 o nwyddau o Garej John Trevor, Llanrug.
- ★ Platiad o gig o siop Wavell Roberts, Llanrug.
- ★ Set o wydrau o siop Stermat, Caernarfon.
- ★ Gwerth £10 o flodau o Blodau Racca
- ★ Gwerth £20 o betrol neu disel o Garej Beran, Deiniolen.

Enillwyr y raffl ar y noson:

Olwen Owen, Waunfawr; Hilda Williams, Llanberis; Llinos Wyn, Bethel; Myra Griffith, Penisarwaun; Ifanwy Jones, Brynrefail; Ann Elis, Bethel; Glenys Griffith, Bethel; Elizabeth Hughes, Llanberis; Carys Jones, Penisarwaun; Dafydd Williams, Bethel; Eirlys Sharpe, Bethel; Bobby Williams, Deiniolen; Freda Jones, Llanberis; Eirlys Williams, Deiniolen; Christina Roberts, Llanberis; Iris Rees Jones, Deiniolen.

Enillwyr y gystadleuaeth yn rhifyn 198:

Glenys Wheldon Williams, Tanygrisiau; Morfudd Jones, Llangefni; Liz Roberts, Bangor. MOT hanner pris i'r dair — llongyfarchiadau.



Arwel a Twrog, dau o gyn-olygyddion yr Eco. Roedd hi'n noson go hwyliog — wir yr !!



Pawb wedi blino ar ôl gweithio'n galed trwy'r dydd ym mhentref Holgate.

Willie'r ymladdwr!

Ym mhentref Houlgate roedd yna bump gweithgaredd i'w gwneud ac un ohonynt oedd bod yn wylwr.

Pan oedd ein grŵp ni yn ffermio, mi neidiodd rhyw ddyn dieithr wedi ei wisgo fel milwr dros y giât. Roedd pawb i fod i fynd i mewn i'r pentref ond arhosodd un dyn bach ar ôl i ymladd gyda'r milwr. Willie oedd o a dyma'r pennaeth yn dweud, 'Mae'n rhaid i mi dy ganmol di am dy ddewrder ond chdi ydi'r gwyliwr gwiriona sydd wedi bod yma erioed!'

DAFYDD SIÔN PRITCHARD



Rhys a David yn cario dŵr.



Dyma warchodwyr y pentref!
Roedd yn rhaid sefyll yn syth a chario tharian a gwaywffon drom.



Bu Manon a Gwyn Arfon yn casglu priciau er mwyn cynnau'r tân.



Jack Thomas

Dewch gyda mi yn ôl i'r flwyddyn 1976 pan oedd dynion yn tyllu er mwyn adeiladu canolfan siopa yn Stryd Coppergate yng nghanol Efrog. Tra roedden nhw yn tyllu fe wnaethant ddarganfod olion Llychlynwyr. Galwyd ar archaeolegwyr i fewn i dyllu am fwy o olion a hyd y flwyddyn 1981 buont yn tyllu.

Roedd ganddynt ddigon o bethau i agor amgueddfa a dyna beth wnaethon nhw. Yn Stryd Coppergate lle cawasnt hyd i'r olion fe wnaethon nhw agor amgueddfa fawr yn llawn o bethau am y Llychlynwyr.

Dydd Gwener, 13eg o Fai, aethom i Ganolfan Jorvik gyda'r Ysgol. Yno, roeddem yn mynd mewn trê yn ôl i oes y Llychlynwyr. Roedd yno fodelau oedd yn siarad ac roedd yr ogle yn ddychrynlyd. Wedyn, roeddem yn mynd ymlaen i'n hamser ni heddiw ond cyn hynny fe wnaethom basio y flwyddyn 1976 lle gwelsom yr archaeolegwyr yn darganfod pethau fel cribau, esgryn, darnau arian, modrwyau, tlysau, pedolau, esgidiau, cloeon a llawer mwy.

Yna, daethom yn ôl i'r flwyddyn 1994. Aethom allan o'r trê a cherdded i fewn i'r rhan fwyaf diddorol o'r lle, y rhan lle roedd pethau wedi cael eu cadw mewn cypyrddau gwydr i fod yn ddiogel.

Ewch yno, brysiwch! Mae llawer o hwyl i'w gael.

JOANNA CUTHBERTSON

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Trip yr Ysgolion Sul: Pleidleisiodd y plant i Blackpool eto eleni gan i'r trip y llynedd fod yn hwylys a llwyddianus. Bydd y trip **ddydd Sadwrn, 2 Gorffennaf**, i gychwyn am 7.30 a.m. o groesffordd King. Y pris i oedolion fydd £6.50 ac i blant sydd ddim yn aelodau o'r Ysgol Sul y pris fydd £3. Enwau rhag blaen i **Elizabeth Jones, 872421** neu **Ann Paterson 872405**, os gwelwch yn dda.

Dymuna'r Ysgolion Sul ddatgan eu cydymdeimlad llwyrfa â theulu Mr Cyril Hoskinson a fu farw ar 10 Mai. Gŵr a fu'n hynod o garedig wrth pob plentyn bach ar fysiau'r trip ers nifer o flynyddoedd gan y derbynai pob un £1 ganddo.

Sul y Beiblau: Bydd aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen ac aelodau Ysgol Sul Bosra yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Beiblau yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, ar y Sul, 26 Mehefin, am 2.00 o'r gloch.

Genedigaeth: Croeso mawr i Bryn, mab bychan a anwyd i Susan a Steven, 18 Bryntirion, a brawd bach i Dylan. Pob bendith i chwi fel teulu.

21ain oed: Llongyfarchiadau i Rhian Williams, Amanda Orrock a Delwyn Jones ar achlysur cyrraedd eu pen-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r pedwar ohonoch.

Profedigaethau: Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Elinor Jones, Heather Bank, a'r teulu oll ar farwolaeth sydyn ei chwaer yn Llanberis.

Ar Fai 10fed, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Cyril Hoskinson, Pant Afon. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf i'r teulu oll.

Cartref Newydd: Sadwrn, Mai 14, ffarweliodd Stad Bryn Eglwys â dau annwyl dros ben, sef Ceren ac Aled Jones, 4 Bryn Eglwys. Bu Ceren yn hynod weithgar yn y pentref gyda'r Eisteddfod, y Neuadd a'r Carnifal, ynghyd â phob gweithgaredd arall a drefnwyd yn y pentref. Bydd colled hefyd am 'plymar handi' yn y stad gan fod Aled yn un mor hawdd gofyn cymwynas ganddo. Gresynwn eu colli ond dymunir pob hapusrwydd iddynt yn eu cynefin newydd yn Nantlle.

Estynnwn groeso cynnes i Alan Rees Hughes sydd wedi symud i fyw i 4 Bryn Eglwys. Nid yw'r pentref yn ddieithr iddo gan mai un o Benisar-waun oedd ei fam a'i nain Mrs

Maggie Rees Thomas; ac mae Mrs Beti Hughes yn fodryb iddo. Felly, buan iawn y byddwch yn setlo Alan. Pob dykmuniad da i chwithau.

Lwc Dda: Pob bendith i Nia a Richard Sharpe, 7 Bryn Eglwys, ar achlysur eu priodas ar Sadwrn, 14 Mai. Dymunir pob hapusrwydd i chwi.

Pwyllgor Neuadd: Gwnaed elw sylweddol o £360 gyda'r Cyngerdd Llwyddiannus yng nghwmni Hogia'r Wyddfa, ynghyd â phlant yr ysgol, aelodau'r Urdd a ieuencid y pentref. Y mae nifer wedi gofyn am gyngerdd tebyg yn flynyddol! Bydd llyfrau raffl ar werth o hyn i'r Carnifal. Gwerthfawrogwn eich haelioni drwy gefnogi'r gweithgaredd hwn.

Gwellhad: Dymunir adferiad buan i David Philips, Waun, sydd yn derbyn triniaeth eto i'w goes yn Ysbyty Gobowen.

Da deall fod bachgen bach Mr a Mrs Barry Jones yn gwella hefyd wedi ei arhosiad yn yr ysbyty.

Anfonir cofion annwyl at bawb sy'n sâl yn y pentref.

Cyfeillion yr Ysgol: Cynhelir **Sêl Cist Car** yn yr Ysgol Gymuned ar Fehefin 16, am 6 p.m. Agorir y giatiau am 5 o'r gloch. Y pris fydd £4 y car. Bydd paned o de a theisen neu fara brith ar werth. Dowch yn llu. Bu llwyddiant mawr y llynedd!

Arholiadau: Diwrnodau braf, heulog, noweithiau hir, cynnes — ie, tywydd arholiadau! Na phoenwch fe ddont i ben — adolygwch yn galed ac yna mwynhewch chwithau y gwyliau hirfelyn tesog! Pob dymuniad da i bob un ohonoch ple bynnag y boch.

Ysgol Penisarwaun: Fel rhan o weithgareddau chwaraeon y dalgylch cafodd plant Bl. 5 a 6 gyfle

i fwynhau prynhawn o chwaraeon yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Pwrpas y trefniant yw rhoi cyfle i'r plant fwynhau y profiad o wahanol chwaraeon, sef pêl-droed, pêl-rwyd ac uni-hoc, ac i ddod i adnabod plant o ysgolion eraill y dalgylch. Braf iawn oedd gweld y plant yn dychwelyd i'r ysgol wedi cael pleser a mwynhad o gymryd rhan. Diolch i bawb fu'n ymwneud â'r trefniant.

Yn dilyn gwyliau Calan Mai treuliodd Bl. 6 ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail fel rhan o'r trefniant i ymgysgu'r ysgol cyn trosglwyddo yno ym mis Medi.

Diolch i bawb am wneud eu diwrnod yno yn un mor hapus.

I gloi, trist oedd clywed fod Mrs Olwen Ingham wedi derbyn ymddeoliad cynnar yn dilyn cyfnod o salwch. Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i Mrs Ingham am ei gwasanaeth i'r ysgol ers 1987, ac i ddymuno pob hapusrwydd iddi yn ei ymddeoliad.

Cronfa Haematoleg: Ymddiheuir am adael enw Iwan Williams, Deiniolen o blith y rhai a gymerodd rhan yn y Gymanfa Nos Sul y Pasg. Diolchir iddo am ei ddatganiad gwefreiddiol a dymunir yn dda iddo yn y coleg.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440



Manon Llwyd Pritchard, Miss Rosebud Carnifal Nant Peris.

Miss Rosebud Carnifal Nant Peris am eleni yw Manon Lyn Pritchard, Fron Rhedyn. Gobeithir cynnal y Carnifal ar nos Wener, 22 Gorffennaf — wythnos ar ôl Carnifal Llanberis.

Llongyfarchiadau i Mrs Blodwen Williams (Penybryn gynt), Plas y Bryn, Bontnewydd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 95 yn ddiweddar.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna 679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Ffair y Gwanwyn: Cynhelir y Ffair Wnwyn y Capel yn y Festri am 7 o'r gloch nos Fercher, 8 Mehefin. Croeso i bawb, o agos ac o bell.

Mary Lloyd. Pe bai darllenwyd yn cofio merch o'r enw Mary Lloyd 'o Gaeathro' a oedd yn y Coleg ym Mangor yn y 50au ac felly sydd tua 60 oed, gofynnir iddo(iddi) gysylltua ag Ifor Hughes, Lleifior.

Sioe'r Pentref: Mae mis Mai wedi gweld yr haul uwchben y pentref. Felly peidiwch ag oedi cyn plannu

llysiau a blodau ar gyfer sioe'r pentref ym mis Awst. Gwelir copi o'r testunau ar hysbysfwrdd y pentref.

Tynfa'r Pentref: Enillwyr tynfa misol y pwyllgor cae chwarae ym mis Mai oedd — £40: Michael a Frances Wyn Williams, Bodwyn (8); £25: Mrs Lovell, Erw Wen (67); £15: Geraint a Zonia Bowen, Cefn Coch, Stad Glandŵr (12).

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod mis Mehefin —

5: Gweinidog, 2.00
12: Cwrdd Gweddi, 2.00
19: Gweinidog, 10.00
26: Albert Jones, 2.00
Gorffennaf —
3: Gweinidog, 10.00

CYFEILLION YSGOL GYMUNED
PENISARWAUN

SÊL CIST CAR

AR FUARTH YR YSGOL

NOS IAU, MEHEFIN 16

am 6.00 o'gloch

BYDD PANED A BYRDDAU GWERTHU

DEWCH YN LLU



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/ffacs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Plaid Cymru: Trefnwyd yr Helfa Drysor lwyddiannus a gynhaliwyd ar nos Fercher, Mai 11, gan Einir Parri ac Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant. Roedd pawb wedi mwynhau yr helfa a hefyd y bwyd blasus a drefnwyd yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, i ddiweddu'r noson. Yr enillwyr oedd — 1. Iwan Roberts, Lleifior, a'r teulu; 2. Siôn Humphreys, Pant y Bryngwyn, a'r teulu; a Lis Roberts a'i chyfeillion.

Enillwyr y raffl oedd — 1. Dylan Wyn Pritchard, Bryn Moelyn; 2. H. Roberts, Glyn Awel.

Diolchwyd i Einir, Evan a Helen Parry am drefnu'r noson.

Dymunwn yn dda iawn i Cliff Williams ar ei ymddeoliad o Curry's Caernarfon. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Dora Jones, Hafan Elan, wedi ei damwain yn ei chartref; ac at aelodau eraill sydd hefyd yn cwyno. Dymunwn yn dda i'r Cyngorydd Emyr Tomos, Tanycoed, sydd unwaith eto yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Mehefin 29, yn y Sefydliad Coffa.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen ar nos Fawrth, Mai 10fed. Estynnwyd croeso i Mrs Eileen Thomas wedi'i gwaeledd gan y llywydd, Mrs Meryl Green. Darllenwyd cofnodion y llynedd ac fe'u cafwyd yn gywir. Diolchodd y llywydd i'r swyddogion am eu gwaith caled ac i aelodau'r pwyllgor. Etholwyd rhai swyddogion newydd ynghyd ag aelodau newydd i'r pwyllgor. Dymunir yn dda i Menna fel llywydd y flwyddyn nesaf.

Derbyniwyd llythyr gan John Parry i ddiolch am y cyfraniad tuag at ei aith ar feic i godi arian at achosion da. Cododd dros £3,000.

Diolchodd Gwenda i Heulwen, Ffion ac Ann am baratoi'r baned. Enillwyd y raffl gan Mary Roberts.

Cynhelir Helfa Drysor **Hawdd** ym mis Gorffennaf am 6.30 yn iard Ysgol Gynradd Llanrug. Cysyllter â Gwenda (675649), neu Carys (678629) am fanylion y bwyd. Dewch yn llu — dewch a ffrind hefo chi — cafwyd hwyl fawr ar yr Helfa y llynedd.

Diolchiadau

Dymuna Mrs Helen Roberts a'r teulu, 2 Gwêl Fynydd, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu

profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a hen daid annwyl iawn.

Diolch yn fawr iawn i bawb am y rhoddion hael er cof amdano ac fe gyflwynwyd sic am £500 i'r Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd.

Mae George a Nancy Lovatt yn dymuno diolch o galon i bawb am y cymwynasgarwch a'r cyfeillgarwch a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu deng mlynedd ar hugain yn Brwynog; ac am y dymuniadau da wrth iddynt ymadael i fyw yn Aberystwyth.

Gwellhad Buan: Mae Mrs Jane

Humphreys, Las Ynys, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Erbyn hyn y mae wedi gwella ac yn aros am gyfnod yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Yr ydym yn dymuno'r gorau i Mrs Humphreys ac yn gobeithio cael ei gweld yn ôl yn fuan yn Llanrug.

Ysgol Gynradd Llanrug: Newyddion da a gyrhaeddodd i'r Ysgol yr wythnos hon — ganed mab bach arall i Mrs Howells. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu a chroeso i Guto Wyn.

Enillwyr Clwb Cyfeillion mis Mai oedd: 1. Carys Hamer, Minffordd, Llanrug; 2. Gemma Louise Jones, Llwyfor; 3. Gareth Eifion Jones, 36 Glanffynnon; 4. Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun; 5. Elin Jones, Y Gerlan, Bontnewydd.

FFARWELIO



Mewn cyfarfod ar ôl yr oedfa fore Sul, Ebrill 24, yn Eglwys y Rhos, cyflwynodd Mrs Nancy Roberts anrheg i Mrs Nancy Lovatt ar achlysur ei hymadawiad hi a'i phriod Mr George Lovatt i fyw i Aberystwyth. Diolchodd Mrs Roberts iddi am ei blynnyddoedd o wasanaeth fel organyddes, athrawes Ysgol Sul a hyfforddwraig y plant i ganu ar gyfer llawer cyfarfod a gwasanaeth.

Cyflwynodd sampler iddi o waith

Mary Elliott, Penisarwaun, ac arno yr englyn hwn o waith Ieuan Wyn:

NANCY LOVATT

Gyda pharch rhown gyfarchion, — a'r alaw'n
Ffarwelio ag Arfon;
Boed i'w llais greu bywyd llon
Yn nhegwch Ceredigion.

Dymuna eu cyfeillion yn Eglwys y Rhos yn dda iawn i Nancy a George Lovatt yn eu cartref newydd. Bydd collef fawr ar eich ôl.

Cafwyd noson ddiddorol iawn gan Ffrindiau'r Ysgol ar nos Fawrth, Mai 17, pryd y recordiwyd y rhaglen 'Talwrn y Beirdd' yn yr Ysgol. Bydd yn cael ei darlledu ym mis Mehefin. Timau Deudraeth, Glannau Llyfni, Waunfawr a Beirdd y Byd oedd yn cymryd rhan a chafwyd noson hwyliog yng nghwmni'r Prifeirdd Gerallt Lloyd Owen a Dic Jones yn cadw trefn ar y beirdd. Diolch yn arbennig i'r rhieni am baratoi'r bwyd — roedd y beirdd yn canmol yn arw.

Yn ystod tymor yr haf dechreuwyd ar y drefn newydd o gystadlaethau dalgylchol mewn chwaraeon pan oedd ysgolion cynradd y cylch yn cyfarfod ym Mrynrefail i gael cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd ac uni-hoc. Cafwyd pnawn braf gyda phawb yn mwynhau eu hunain.

Fe hoffai disgyblion Bl. 6 ddiolch am y croeso a gawsant gan Ysgol Brynrefail yn ystod eu hymweliadau blynnyddol yno.

Bu blwyddyn pedwar ar gwrs preswyl ym Mhlas Glynllifon, Ebrill 25-29. Treuliwyd yr amser yn olrhain hanes a theulu y plas. Ymwelodd y plant â Phlas Penrhyn a chaer Williamsburg hefyd. Bu i bawb fwynhau eu hunain a dysgu llawer.

Yr Urdd: Aeth tîm o'r Ysgol i lawr i gaeau Ysgol Syr Huw Owen i gystadlu ym Magolgampau'r Urdd. Bu cystadlu brwd yno. Llongyfarchiadau i bawb, ac mae'r canlynol yn mynd ymlaen i'r Sir: Eifion Williams, rhedeg dan 10 oed; Gemma Boene, naid hir; Siân Green, naid hir; Nicola Jones, rhedeg dan 12 oed; Tîm ras gyfnewid genethod dan 12 oed; Rheon Parry, taflu pêl.

Mae'n amser Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nolgellau wedi ein cyrraedd. Dymuniadau gorau i blant yr Ysgol sy'n cymryd rhan — Criw y Cyflwyniad Dramatig; Sioned Wyn Jones, unawd 8-10 oed; Tîm y Dawnsio Disgo; Elin Dafydd sy'n dawnsio disgo a gwerin yn unigol o dan 12 oed.

Cynhelir Trip Ysgol Sul Capel y Rhos ar yr 2 Gorffennaf. Y pris fydd £3.50 i blant ac oedolion (plant o dan 3 oed am ddim). Enwau, ac arian, i Mrs Meryl Green (677149) os gwelwch yn dda.

Diolch: Dymuna Mr R. T. Pritchard ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei benblwydd yn ddiweddar, gyda diolch hefyd i aelodau Cyngor Cymuned Llanrug am y dystysgrif hardd. Diolch yn arbennig i'w gymydog Mrs Ann Williams, 4 Gwêl Fynydd am ofalu'n garedig am y llu gwahanol drefniadau dros y cyfnod diweddar.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
675754

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278
Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

DDEUNAW MLYNEDD YN ÔL

Neilltuwyd tudalen flaen *Eco* Mehefin 1976 i gyflwyno cynlluniau'r Bwrdd canolog Cynhyrchu Trydan a'r Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Oriel Eryri oedd i'w chodi yn Llanberis. Amcangyfrifid y byddai'r adeilad newydd yn costio hanner miliwn o bunnoedd i'w godi. Roedd yn amlwg bod rhai yn amau a fyddai'r cynllun arbennig hwn o wir ddefnydd i bobl yr ardal. Gwahoddwyd ymateb y darllenwyr i'r holl gynllun a wnaï yr *Eco* wrth gyhoeddi'r manylion.

Roedd Cyngor Cymuned Llanberis wedi cael 'Angorfa', hen gartref T. Rowland Hughes, yn gartref i weithgareddau'r Cyngor, ac yn bwriadu iddo fod at ddefnydd y gymuned leol.

Roedd llun o'r lôn newydd heibio tafarn y Fricsan yng Nghwm-y-glo; roedd yr hen bont dros y rheilffordd newydd gael ei dymchwel y mis cynt. Roedd llun hefyd o Barti Eryri oedd wedi bod yn dathlu deng mlynedd o ddiddanu cynulleidfaoedd.

Roedd enw Llanberis yn amlwg ar y dudalen chwaraeon. Daethai timau o bump o ysgolion cynradd y fro i ymgiprys am darian newydd yr *Eco* mewn cystadleuaeth bêl-droed pedwar-bob-ochr. Ysgol Dolbadarn oedd yr enillwyr. A newyddion pwysig arall oedd bod Aelwyd Llanberis wedi ennill Cwpan Pantyfedwen trwy guro Aelwyd Cwm Afan o 6 gôl i 0 yn Aberystwyth.

CYNHELIR CYFARFOD UNDEBOL CYMDEITHAS Y BEIBLAU

YNG NGHAPEL EBENESER
DEINIOLLEN

Dydd Sul, Mehefin 26
am 2 a 6 o'r gloch

Cyfarfod y Prynawn:
PLANT YR YSGOLION SUL

Cyfarfod yr Hwyr:
CYMANFA
dan arweiniad Mr Arwel Jones
gyda eitemau gan Gôr Meibion
Dyffryn Peris.

EDRYCHWN YMLAEN AM GEFNOGAETH
I'R DDAU GYFARFOD

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen: Chwe cais a dderbyniwyd oddi wrth fudiadau yn y pentref yn ceisio cymhorthdâl o'r Gronfa uchod am eleni. Roedd gan yr Ymddiriedolwyr rhyw £2,500 wrth gefn, ond penderfynwyd, yn wyneb y gostyngiad yn y gyfradd llôg, i gyfyngu y rhoddion i £1,500 am 1994, gan ddyfarnu'r rhoddion canlynol — Urdd Sant Ioan: £50; Eisteddfod Gwaun Gynfi: £200; Yr Ysgol Feithrin: £350; Y Ganolfan: £200; Clwb Snwcer: £200; Seindorf Arian: £500.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod y gangen yn y Caban ar 18 Ebrill, gyda Mrs B. W. Davies yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â Mrs M. C. Griffith, Cynfi, ar golli ei modryb; ac fe estynnwyd ein dymuniadau am wellhad llwyr a buan i'r aelodau a fu'n wael yn ystod y mis.

Etholwyd Mrs Margaret Jones a Mrs Margaret Roberts i fynd i'r Gynhadledd Genedlaethol a gynhelir yn Aberystwyth.

Y wraig wadd oedd Mrs Ella Wyn Jones, Penmynydd, a chafwyd noson ddifyr ganddi yn sgwrsio am iechyd merched. Da oedd ei gweld wedi

gwella ar ôl gwaeledd. Diolchwyd iddi gan Mrs Margaret Roberts. Darparwyd y te gan Mrs M. C. Griffith, Miss Nansi Owen a Mrs Jane Jones. Enillydd y raffl oedd Miss Eileen Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mai 16eg, yng nghwmni Mrs Gracie Davies, Bethesda.

Diolchiadau

Dymuna Beryl ac Ieuan Williams, 101 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth y tripled Mandy, Christopher a David ar Chwefror 28.

Dymuna Eleri Owen, 4 Tai Ffynnon, Clwt-y-bont, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y gofal caredig tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i'r Parchg John Gwilym Jones, Bangor, a staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Alaw Mari Huws, 8 Tai Faenol, ar basio arholiad theori gradd 3 mewn cerddoriaeth, o dan nawdd y Coleg Brenhinol. Mae Alaw yn cael ei hyfforddi gan Sioned Meleri Owen, Bethel.

Seindorf Deiniolen

Pysur iawn ydyw hanes y Seindorf y misoedd yma. Yn dilyn eu buddugoliaeth yn rownd gyn-deryfynol Pencampwriaeth Prydain mae'r ymdrech i godi arian tuag at y daith i Lundain ym mis Hydref yn dechrau codi stêm.


Yn ystod y mis buom yn diddori'r ymwelwyr yn y Rali Geir yn Llanberis. Buom yn dathlu degfed pen-blwydd Gorsaf Drydan Dinorwig drwy gymryd rhan yn y seremoni agoriadol a gynhaliwyd yn yr Amgueddyn y bore ac yna yn y Cyngerdd Mawreddog a gynhaliwyd yn yr hwyr.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* ddod allan bydd ein Cyngerdd Blynnyddol wedi cymryd lle yn Ysgol Brynrefail, Llanrug a cheir yr hanes yn y rhifyn nesaf o'r *Eco*.

Unwaith eto mae aelodau o'r Seindorf wedi eu dewis i fod yn aelodau o Fand Cenedlaethol Cymru, sef Euros Williams, Martin Williams, a Gavin Saynor. Mae Siân Griffith ac Eilir Williams hwythau wedi eu dewis er nad yw Siân ac Eilir bellach yn aelodau o'r Seindorf maent yn dal yn aelodau o'r Band iau, pob hwyl iddynt i gyd gyda'r Band Cenedlathol.

Yn ogystal â chael ei ddewis i'r Band Cenedlaethol cafodd Gavin ei ddewis i 'Foster Class' yn Merthyr, pryd y recordiwyd ar gyfer S4C.

LLANBABA YN DOD ADREF



Yn dilyn eu llwyddiannau ar gaeau pêl-droed Gogledd Cymru dros y tymor diwethaf bydd cyfnod newydd yn hanes Clwb Pêl-droed Deiniolen yn cychwyn ym mis Gorffennaf. Y tymor nesaf bydd pob gêm 'gartref' yn cael ei chwarae ar gae newydd y pentref. Mae'r gwaith o'i baratoi ac o adeiladu'r ystafelloedd newid wedi ei gwblhau a'r Agoriad Swyddogol wedi ei drefnu ar gyfer Sadwrn, Gorffennaf 2il. Cawn gyfle i adrodd ar yr achlysur a digwyddiadau'r tymor yn rhifynnau nesaf yr *Eco*.

DRAENOG



Mi glywais am gyfaill o Ddeiniolen yn mynd â'r ci am dro ar y llechrau uwchben y pentref. Llithrodd y gŵr bonheddig a syrthio wysg ei gefn i ganol mwd. Bu'n gorwedd yno am sbel, yn methu'n glir a'i ryddhau ei hunan. Yn ôl a ddeallaf, chafodd cyfeillion diarth o Saeson fawr o ddiolch pan gynigion nhw ei helpu. Ag yntau yn gyn-weithiwr i'r Bwrdd Dŵr mae'n siŵr ei fod yn falch o gael dŵr glân i folchi wedi dod yn rhydd ymhen hir a hwyr.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



ANTUR WAUNFAWR

SIOP GREFFTAU
CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

Cyfeillion Tenovus: Ar Ebrill 17 roedd lestin Harris o'r Bala a Henry Roberts o Lanystumdwy, yn rhedeg yn Marathon Llundain er budd yr elusen Tenovus. Llwyddodd chwech ohonom yn Llanrug i gael noddwyr iddynt a chafwyd cyfanswm o £143.50. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwng hwn.

**GOHEBYDD NEWYDD
LLANRUG YW
ERYL ROBERTS
3 BRYN MOELYN
(0286) 675384**

**Diolch o galon iddi am
ymgymryd â'r gwaith.**

BRYNREFAIL

**Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580**

Cymanfa Dosbarth Padarn: Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Coch, Llanberis, ar ddydd Sul, Mai 1af. Llongyferchir y canlynol o blant Ysgol Sul Brynrefail am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar: Dylan Wyn Davies, Katy Pritchard, Elen Williams, Claire Pritchard, Mathew Roberts ac Amy Lambert. **Cymdeithas y Chwiorydd:** Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri ar nos lau, mai 5ed. Cymerwyd at y defosiwn gan Mrs Jennie A. Roberts ar y thema 'Cariad at yr Achos'. Anfonwyd cofion at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ac at bawb arall sy'n wael. Llongyfarchwyd Mrs Hannah J. Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 oed ar Fai 9fed; a hefyd llongyfarchwyd Miss Lowri Prys Roberts am ei gwaith yn arwain Cymanfa'r Dosbarth. Croesawyd Mr W. P. Williams, Bethel, fel gŵr gwadd y noson a chafwyd sgwrs a sleidiau hynod o ddiddorol ganddo ar y testun 'O'r Carn i'r Olwyn', yn olrhain hanes fel mae byd y ffermwr wedi newid. Mrs Ellen George dalodd air o ddiolch i'r siaradwr. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirianwen Evans a Mrs Ifanwy Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. **Marwolaeth:** Ddydd Sadwrn, Mai 7fed, bu farw Mr O. J. Williams, Bryn Melyn, wedi cystudd hir yn Ysbyty Bryn Seiont, yn 79 mlwydd oed. Roedd ei wreiddiau yn ddwfn yn y pentref ac wedi dilyn ei dad yn ei

alwedigaeth o yrru lorïau fel contractwr cludo. Bu'r angladd ddydd lau, Mai 12fed. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel M.C. Brynrefail, lle bu ef a'i ddiweddar briod yn aelodau ac am gyfnod yn gofalu am yr adeiladau gyda graen. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, Y Parchg John Morris a'r organydd oedd Miss Lowri Prys Roberts. Talwyd teyrnged i'r ymadawedig gan y gweinidog a Mr Bertie Ll. Roberts (blaenor). Cydymdeimlir yn ddwys â'i ddau fab, Mr John Selwyn Williams a Mr Bryn Williams, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Dathlu: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Dafydd G. a Moira Ellis, Gweledfa, ar ddathlu eu priodas arian ar ddydd Mawrth, Mai 17eg. **Sefydliad y Merched:** Nos Lun, Mai 9fed, daeth yr aelodau ynghyd i'r Ffestri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Treuliwyd rhan gyntaf y cyfarfod yn trafod yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynnyddol yn Birmingham ac yn dilyn dangoswyd fideo gan y llywydd o dan y teitl 'Blas ar Gymru'. Paratowyd y baned gan Mrs Pat Jones a Mrs Betty Owen. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Eleanor Williams, gan Mrs Betty Owen. Ddydd Llun, Mai 30ain, bydd yr aelodau yn mynd ar wibdaith i Stoke on Trent i ymweld â'r crochendai.

Diolch: Dymuna Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r galwadau ffôn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

ANTUR WAUNFAWR (Cronfa Gynnal)

CYNGERDD ARBENNIG

**NOS SADWRN, 2 GORFFENNAf 1994
am 7.30 o'r gloch
YN NEUADD Y P.J. COLEG Y BRIFYSGOL,
BANGOR**

HYWEL GWYNFRYN
yn cyflwyno

**MARIAN ROBERTS
HOGIAU LLANDEGAI
JOHN AC ALUN
IFAN GRUFFUDD**

**TREBOR EDWARDS
CÔR Y TRAETH
Y MONIARS
CÔR SEIRIOL**

TOCYN £4
(£3 plant a phensiynwyr)

ETHOLIAD EWROP


9 MEHEFIN 1994

*Gyda'ch help chwi gallwn ennill
yr etholiad hon.*

Mewn pôl diweddar gan BBC Cymru roedd **Plaid Cymru** o fewn dim i ennill y sedd.

Gofynnwn am bob cymorth i gael llais cryf dros bobl Arfon yn Ewrop.

Mae eich pleidlais chwi yn hollbwysig.



Seiliedig ar bôl barn gan y BBC
Mawrth 1994 (Gwynedd a Clwyd)

Pleidleisiwch dros

DAFYDD WIGLEY



Plaid Cymru



Cyhoeddwyd gan Gareth Williams, 8 Stryd y Castell, Caernarfon
Argraffwyd gan Plaid Cymru

COLLEDIG

gan Y Gwalch

Yn 1916, yn ystod y Rhyfel Mawr, daeth y Padre David Railton a oedd yn gwasanaethu ar y Western Front ar draws bedd di-enw gerllaw Armentieres. Roedd croes fechan bren yn ei nodi, ac arni'r ysgrifen: 'MILWR O'R BLACK WATCH'.

'MILWR O'R BLACK WATCH'.

Yng nghanol yr holl alanas o'i gwmpas fe achosodd y digwyddiad bryder iddo. Pwy oedd y milwr? Ai rhyw lanc, neu wr priod? A oedd o'n frawd neu gariad i rywun? A oedd ei rieni yn fyw? Doedd dim ateb i'r cwestiynau a sylweddolodd y Padre na fyddai yna chwaith, byth.

Dychmygodd wedyn am rhyw ffordd ymarferol i liniary galar a phryder teuluoedd a oedd yn gysylltiedig â'r milwyr colledig hyn nad oeddent wedi eu rhestru ymysg y lladdedigion, a daeth iddo'r syniad o gludo un corff adnabyddedig i'w gladdu yn nhir ei wlad fel sumbol o aberth yr unigolyn yn y gyflafan fawr yn ei chrynswth.

Yn ddiweddarach yn ystod y rhyfel fe ysgrifennodd Railton at yr Arglwydd Douglas Haigh yn egluro ei syniad ond ni chafodd atebiad. Wedi'r rhyfel, fodd bynnag, pan ddaeth yn ficer eglwysg Sant Ioan Fedyddiwr, Margate, yr oedd yn dal yn gyndyn o ollwng gafael yn ei syniad. Yn Awst 1920 anfonodd at Esgob Ryle, Deon Abaty Westminster. Cydsyniodd yr esgob â'i awgrym a rhoddodd symudiadau ar waith i'w gwireddu. Yn ystod hydref y flwyddyn honno, clywodd David Railton fod ei fwriad wedi ei dderbyn gan y llywodraeth a bod pwyllgor, o dan lywyddieth yr Arglwydd Curzon y Gweinidog Tramor, eisoes ar fedr trefnu i gorff milwr di-enw gael ei godi o ddaear Ffrainc a'i gludo i'w ail gladdu yn yr Abaty.

Aed i drafferthion mawr i gelu unrhyw adnabyddiaeth o'r milwr. Ail-agorwyd pedwar bedd dinod o wahanol feysydd brwydrau yn Fflandrys a rhoddwyd y cyrff mewn pedair arch gyffelyb. Wedi nos

arweiniwyd swyddog â chadach wedi ei rwymo dros ei lygaid i mewn i babell lle gorweddai'r eirch. Dedfrydwyd mai yr un gyntaf a gyffyrddai a fyddai'r un.

Cychwynnodd y milwr yma wedyn ar ei daith olaf a'i gludo ar wagen filwrol. Wedi'r osgordd gyrraedd Boulogne cyfnewidwyd yr arch ffawydd am un dderw gadarn a saerniwyd o goeden a dyfai ym mharc Hampton Court Palace. Roedd hon wedi ei rhwymo â gwregysau haearn. Ar ganol y caead, mewn llythrennau Gothig, roedd y geiriau:

A BRITISH WARRIOR
WHO FELL IN THE GREAT WAR
1914-1918

FOR KING AND COUNTRY
O dan yr ysgrifen gosodwyd cleddyf o gynllun henafol a ddewiswyd gan y Brenin allan o'i gasgliad personol.

Ar fore'r degfed o Dachwedd, 1920, gosodwyd yr arch ar wagen Ffrengig yn cael ei thynnu gan chwe cheffyl ac fe'i dilynwyd gan orymdaith faith i'r Quai Carnot i gyfarfod â'r wiblong HMS Verdun. Ar y cei traethwyd mawlgan gan y Cadfridog Foch. Cyfarfuwyd a'r HMS Verdun hanner ffordd ar draws y Môr Udd gan chwe gwiblong o'r Drydedd Fflotila, Llynges yr Iwerydd, a'i hebrwng i Dover lle y taniwyd gynnuau o'r castell fel yr oedd y corff yn cael ei gludo gan WO's, yn cynrychioli y Llynged, y Fyddin, y Marines a'r Awyrlu, i'r orsaf i'w roi ar y trên i Lundain ar gyfer y seremoni a gynhelid trannoeth.

Wrth y Gofeb (Cenotaph) — a ddadorchuddiwyd ar yr un diwrnod — roedd Sior V yn disgwyl dyfodiad yr arch, a oedd erbyn hynny yn cynnal helm ddur, gwregus khaki a chleddyf Croesgadwr. Yn yr Abaty roedd yr arch o dan warchodaeth milwyr a enillodd y Victoria Cross. Cyn iddi gael ei gorchuddio, gwasgarodd y Brenin bridd arni a oedd wedi ei gludo yn arbennig o Ffrainc.

Bu farw'r Padren Railton yn 1955 â'i ddymuniad wedi'i gyflawni; ond nid cyn i'r *Daily Express* ddatgan mai eu golygydd newyddion, J. B. Wilson, a gafodd y syniad yn gyntaf

SINEMA OGWEN NEUADD OGWEN, BETHESDA

PERFFORMIADAU YN DECHRAU AM 6.30 p.m.

NOS SADWRN, 11 MEHEFIN

FREE WILLY (U)

NOS SADWRN, 26 MEHEFIN

THE PIANO (15)

NOS SADWRN, 9 GORFFENNAF

BEETHOVEN 2nd (PG)

NOS SADWRN, 23 GORFFENNAF

**FOUR WEDDINGS AND
A FUNERAL** (15)

FFILMAU A FYDD YN DOD YM MIS MEDI:

REMAINS OF THE DAY

AGE OF INNOCENCE

SHADOWLANDS

SCHINDLERS LIST

NAME OF THE FATHER

HUCK FINN

FLINTSTONES

TOCYNNAU: £2.00

Plant dan 15: £1.00

a bod ei gynigiad wedi ei gyfleu i'r llywodraeth gan Wilfred Ashley, AS, a'i fabwysiadu.

Sut bynnag, y tebygrwydd yw na ddirnadodd y Padre y byddai ei freuddwyd mor bell-gyrhaeddol. Daeth tyrfaoedd i Lundain ar ddydd y seremoni ac yn eu mysg gannoedd a chanddynt berthnasau ar goll ac heb unrhyw gofnod amdanynt — 'missing believed killed' oedd y gosodiad swyddogol. Ond yr oedd amryw byd yn dal gafael yn y gobaith y deuai'r colledig eto adre'n ôl. Roedd rhai yn coleddu'r syniad i'r fath raddau fel na fyddent byth yn cloi eu drysau ddydd na nos. Anfonais yn ddiweddar i'r *Countryman* hanes chwaer felly o gefn gwlad Worcester. Roedd hi yn dal i ddisgwyl dychweliad ei hefaill

frawd o frwydr Gheluvel, lle y dioddefodd Catrawd Caerwrangon golledion mor enfawr fel bod yn y ddinas honno barc wedi ei neilltuo i'w coffadwriaeth.

Cadwodd Mary y drws yn ddi-glo nes yr aeth i Lundain y diwrnod hwnnw yn argyhoeddedig mai ei brawd a gludwyd yno o Fflandrys. Ac nid hi oedd yr unig un: roedd eraill o'r un gred yng nghylch eu colledion hwythau, er eu bod yn gwybod fod cannoedd o'u cwmpas o'r un feddwl. Ond aeth pob un adref yn dawel yn y sicrwydd fod y naill a'r llall yn camgymryd. Cawsant drwy'r gred honno liniaru peth ar eu gofidiau.

Yn hynny o beth, bu breuddwyd y Padre Railton yn ddim llai na gwyrrh.



GWÊL Y
LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partiön

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partiön, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

IEUAN
WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd

★ Teithiau Lleol a Thramor

★ Gwaith Contract

★ Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Cronfa'r Tŵr: Ar gyfer diwrnod agored Gorsaf Bŵer Dinorwig ar ddydd Sadwrn, Mai 7fed cafodd aelodau Eglwys St. Padarn y sialens o baratoi lluniaeth yn y babell enfawr oedd ar lan y llyn. Menter go fawr gan y disgwyliad oddeutu 2,500 o bobl yno. Gwaith caled ond roedd pawb yn gweithio yn hapus a chytûn gan wybod fod yr arian a dderbyniwyd yn mynd i Gronfa Atgyweirio y Tŵr. Calonogol oedd clywed y Saeson yn canmol y Bara Brith a'r scones a wnaeth gartref.

Mae caredigrwydd a chymorth swyddogion y Grid Cenedlaethol tuag atwm wedi bod yn eithriadol a diolchwn y fawr iddynt.

Undeb y Mamau: Prawn dydd Mercher, 3 Mai, cyfarfu'r gangen yn y festri. Y gŵr gwadd oedd Canon Alun Hawkins ac fe esboniodd pa mor ddiddorol oedd ei waith yn y Gadeirlan. Swydd, meddai, sy'n creu llawer o adloniant a balchder yn enwedig i gael aelodau ifanc i berthyn i'r côr.

Trefnwyr gwibdaith i Gaer ar ddydd Mawrth, 7 Mehefin, ac os oes rhai am ymuno â ni cysylltwch â Mrs Dilys Phillips (871417).

Mrs Hilda Williams a Mrs Betty Hughes oedd yn gofalu am y lluniaeth. Enillydd y raffl oedd Mrs Audrey Evans. Diolchwyd i'r Canon Hawkins ac i Hilda a Bet gan Mrs Betty Humphreys, ac fe eiliwyd gan Mrs Muriel Morris.

Priodas: Ar y 9fed o Ebrill yn y Capel Coch priodwyd Gillian, merch Mr a Mrs Alan Tudor Jones, 1 Stryd-y-dŵr, Llanberis, â Pranlal Parsottam Asodia, mab Mr a Mrs Parsottam Hirji Asodia, Radford, Coventry. Y morynion oedd Wendy, Raksha a Nicky a'r gwas oedd Rohit Asodia. Bu'r wledd briodas yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Dymuna Gillian a Pran ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.



Pran a Gillian.

Antur Waunfawr: Yn ystod y diwrnod agored a gynhaliwyd gan y Grid Cenedlaethol ar Fai 7fed cafwyd raffl eu budd Antur Waunfawr. Mae'r rhai a drefnodd y raffl yn ddiolchgar am bob cefnogaeth a gafwyd. Gwnaed elw o £230 trwy'r raffl a'r bwrdd tombola. Enillwyr y gwobrau oedd: 1, Heulwen Jones; 2, Betty Owen; 3, Eirian Parry; 4, Cheryl, Co-op.

Yr Urdd: Mae tymor cangen y pentref o'r Urdd wedi dod i ben erbyn hyn, a chafwyd amrywiaeth da o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Byd y campau oedd yn cadw'r plant yn brysur tua diwedd y tymor. Dydd

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Sadwrn, Ebrill 23ain, aeth 13 o blant i Aberystwyth i gystadlu yn Rasus Traws-gwlad yr Urdd. Yr oedd rhwng 100 a 130 o blant yn cystadlu ym mhob un o'r rasus, a gwnaeth plant Llanberis yn eithriadol o dda. Daeth Gareth Wyn Jones yn ail ac Evan Williams yn ddegfed yn eu ras hwy; tra roedd Claudia O'Donnell yn drydydd, Rebecca Jones yn bedwerydd ac Elin Hardin yn bumed yn eu rasus hwythau. Dyma safleoedd gweddill y rhedwyr: Aaron Lloyd Jones (23); Sarah Jones (29); Phillip Foulkes (43); Ceri Wyn Jones (76); Gwen Williams (38); Idwal Williams (55); Ian Jones (21); a Marc Evans (37). Llongyfarchiadau iddynt i gyd, a diolch i Mr Rhys ap Iwryn am eu hyfforddi. A phrawn Llun, Mai 16, bu 19 o blant yr Adran yn cystadlu yng Ngornest Chwaraeon Cylch Arfon ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon. Bydd gweithgareddau'r Gangen yn ail-ddechrau ym mis Medi. Wrth ddiolch i bawb a fu'n gweithio gyda'r plant trwy'r flwyddyn diolchir yn arbennig i Mrs Ann Jones sydd wedi bod yn gyfrifol am yr holl drefniadau.

gwasanaeth i'r Ysgol. Penodwyd Miss Andrea Jones yn ei lle, a chroesewir hi i'r Ysgol a gobeithiwn y bydd yn hapus yn ei gwaith. Mae plant Adran y Babanod wedi cael modd i fyw yn ddiweddar wrth ofalu am gywion bach newydd. Roedd deorfa wedi cael ei rhoi ar fenthylg i'r Ysgol a Mrs Jane Roberts a Mrs Brookes a'r plant wedi bod yn llawn cyffwrth wrth ddisgwyl i'r cywion bach deor. Pan gafwyd y cywion cyntaf roedd pawb wrth eu bodd ac wedi gwirioni gweld y cywion hwyaid a'r cywion ieir. Roeddent wrth eu bodd yn siarad am y cywion, yn mwynhau gofalu amdanynt, ac yn methu peidio â gwenu wrth edrych arnynt... ac mae'n debyg bod y plant yn reit hapus hefyd!

Rydym yn dal i gasglu vouchers Persil a byddwn yn falch o'u derbyn gennych o hyn i ddiwedd mis Mehefin.

Capel Coch

Cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Padarn yn y Capel Coch, ddydd Sul, Mai 1af. Bu paratoi mawr ar gyfer y diwrnod a dymuna swyddogion yr eglwys ddiolch i bawb a weithiodd



Plant yr Ysgol yn Rhyd-Ddu.

Ysgol Dolbadarn: Treuliodd plant dosbarth Mr ap Iwryn wythnos yng Nghanolfan Rhyd-ddu ddechrau mis Mai, ac er gwaetha'r tywydd sâl cafwyd amser da dros ben. Bu plant dosbarth Mrs Pierce a Mrs Humphreys ar drip i Efrog a Scarborough, a cheir peth o hanes y daith yn yr Eco y mis hwn. Mae Mrs Sioned Roberts wedi gorffen ei swydd fel goruchwylwraig amser cinio, a diolchir iddi am ei

mor galed i ddarparu'r croeso ar gyfer yr ymwelwyr.

Roedd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan ar ddechrau oedfa'r prawn, a chyflwynwyd stori Noa ganddynt. Yr oedd nifer da ohonynt wedi dysgu'r gwaith ar gyfer yr Arholiad, a gwobrwyyd hwy yn y cyfarfod. Yn ystod yr oedfa gyda'r nos, athrawon a rhieni yr Ysgol Sul oedd yn cymryd y rhannau arweiniol, a braf oedd gweld nifer ohonynt yn cymryd rhan am y tro cyntaf ers tro byd. Cafwyd eitemau gan barti Lleisiau Lliwedd hefyd yn oedfa'r nos. Arweiniwyd y canu gan Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail, a'r organydd oedd Mr Gareth Jones. Llywyddwyd y cyfarfodydd gan Mr John Hugh a'r Parchg John Pritchard.

Paratowyd te yn y festri, a llwyddwyd i fwydo dros 120 o bobol ar yr un pryd. Diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau at y te ac i bawb a fu yn helpu.

Dosbarth y Chwiorydd: Aeth rhai o'r chwiorydd i'r Sasiwn a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar Fai 3ydd, a mwynhawyd anechiadau'r Parchg John G. Roberts a Miss Catrin Haf Williams. Bydd cyfarfod nesaf y chwiorydd yn cael ei gynnal yn y festri am 2 o'r gloch, ddydd Iau, Mehefin 2il. Gobeithio bydd rhai o'r chwiorydd sydd heb fod yn dda yn

ddiweddar wedi gwella erbyn y cyfarfod hwn.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Mai — £35: C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); £25: Mrs Williams, Tan y Fron, Fach-wen (182); £15: G. Jones, 9 Maes Padarn (176); £10: E. Jones, Dakota (47); £5: J. Vaughan, 1 Rhes Cambrian (87).

Diolchiadau

Dymuna Megan Jones, Minffordd, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu a ffrindiau am y galwadau ffôn, y llu cardiau, blodau a'r anrhegion. Diolch hefyd am yr ymweliadau â hi yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mr Tom Peris Roberts, 11 Stryd Turner, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff wardiau Conwy, Aran a'r Gogarth am eu gofal caredig.

YR YSGOL FEITHRIN

Bore Coffi ar 21 Mehefin yn Festri Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd plant yr Ysgol Feithrin yn canu.

Cynhelir cyfarfod ar 14 Mehefin yn Angorfa, am 6.30 o'r gloch i rieni'r plant sydd â diddordeb i fynychu'r Ysgol Feithrin ym mis Medi 1994.

GÊM FAWR

NOS WENER, MAI 27
AR GAE'R DDÔL
am 6.30 p.m.

AIL DÎM LLANBERIS
v
CRICYMALAS UNITED

DRAENOG



Mi glywais am bobol yn plannu blodau mewn hen botiau arferai fod dan y gwely ers talwm. On pan oedd gweithwyr yn atgyweirio tŷ yn Llanberis yn ddiweddar, bu'n rhaid i un teulu bach ddefnyddio pot blodau at bwrpas go anarferol. Gwrtaith naturiol, hwnna ydio o.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



Alph, Bet, Cled, Deio a gweddill cywion bach yr Ysgol.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Hwyl Haf: Ers i ni gyhoeddi yn y rhifyn diwethaf o'r Eco mai ar ddydd Sadwrn, 2 Gorffennaf, y cynhelir yr Hwyl Haf cawsom wybod mai ar y Sadwrn hwnnw y bydd agoriad swyddogol cae pêl-droed newydd Deiniolen. Gan nad oes Sadwrn arall yn rhydd yn ystod mis Gorffennaf — oherwydd gweithgareddau haf mewn pentrefi eraill — byddwn yn cynnal Hwyl Haf eleni yn gynharach nag arfer ar **brynhawn Sadwrn, MEHEFIN 11**. Felly, cofiwch y dyddiad newydd a mawr obeithiwn y bydd y dyddiad hwn yn hwylus i'r mwyafrif ohonoch i ymuno yn yr hwyl blynyddol yn yr Allt Ddu.

Byddwn yn cadw at yr un trefniadau â'r llynedd, sef cychwyn y gweithgareddau am 1.30 o'r gloch. Bydd pob math o gêmiau ar gael yn ogystal â digon o fwyd, diodydd ysgafn, hufen iâ a stondinau. Bydd y Ganolfan ar agor rhwng 6.30 a 7.30 ar nos Wener, Mehefin 10, ar gyfer derbyn rhoddion o flodau / planhigion, cacennau, celfi, ac ati. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am bob rhodd a ddaw i law.

Eleni yn y gystadleuaeth gwisg ffansi y gamp fydd gwisgo fel un o'r teulu brenhinol (roial ffamili), naill ai fel y Cwîn, ei mab (y tywysog), neu ei gyn-wraig Diana. Mae'r gystadleuaeth yma yn agored i bawb o bob oed. Bob blwyddyn mae llawer ohonoch yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon ac yn ymuno yn yr hwyl a gobeithiwn y bydd yr un gefnogaeth eto eleni. Gyda llaw, rydym wedi cael caniatâd y palas i gynnal y gystadleuaeth hon!

Bydd Glyn Tomos, y trefnydd, yn falch o glywed gan unrhyw un sy'n barod i'w gynorthwyo gyda'r trefniadau. Mae criw bychan wrthi yn

trefnu ond braf fyddai cael mwy o gefnogaeth. Felly, edrychwn ymlaen at weld pob un ohonoch ar y diwrnod ac nid oes reswm yn y byd pam na allwn gael diwrnod wrth ein bodd. Fe welwn i chi ar yr 11eg o FEHEFIN.

Bryisia i wella: Dyna yw'n dymuniad i Trebor Môn o Bwlch Gwynt. Deallwn iddo gael damwain yn ddiweddar ond ar ôl treulio sawl wythnos yn Ysbyty Gwynedd mae'n dda gallu dweud ei fod gartref erbyn hyn. Bryisia wella Trebor bydd colled ar dy ôl eleni yn yr Hwyl Haf. Fel y cofiwch Trebor oedd yn gyfrifol y llynedd am drefnu'r gêmiau yn ystod y prynhawn.

Llwyddiant y Plant: Braf yw cael cofnodi llwyddiant plant Ysgol Sul Capel M.C. Dinorwig yng Nghymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn a gynhaliwyd yng Nghapel Coch, Llanberis, ar yr ail o Fai. Cafodd pob un ohonynt farciau llawn yn yr Arholiad Llafar — dan 3: Elin Morris; dan 4: Sioned Mair Phillips a Rhian Wyn Morris; dan 5: Donna Louise Phillips; dan 6: Ceri Bryn Morris. Llonyfarchiadau i bob un ohonoch.

Yr Wyl Bregethu: Cynhelir yr Wyl Bregethu yn Eglwys St. Mair ar brynhawn Sul, Mehefin 19eg, am 3.30 p.m. Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Aelwyn Roberts, cyn ficer Eglwys Llandegai. Deallwn mai Mr Derek Jones, Llanberis, fydd yn ei gynorthwyo drwy arwain y gwasanaeth. Edrychwn ymlaen i groesawu'r ddau ac, fel arfer, bydd yr un croeso gwresog i aelodau capeli eraill y pentref i ymunod ag aelodau Eglwys St. Mair yn eu Gŵyl Bregethu.

Rhoddir blodau'r allor ar Fehefin y 5ed gan mrs M. Fleming. Suliau dyddiedig Mehefin 12, 19 a 26 Mrs Dilys Williams, Bron Eilian, fydd yn gyfrifol am y blodau. Diolch ymlaen llaw iddynt. Yr un yw y diolchiadau hefyd i aelodau'r eglwys am y casgliad ariannol a wnaed yn ystod tymor y Grawys o £33.79 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Cofio'r Cau: Prin fod angen eich atgoffa am y noson arbennig sydd i'w chynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, i gofio achlysur cau Chwarel Dinorwig chwarter canrif yn ôl. Cynhelir y noson ar nos Wener, Gorffennaf 8fed am 7.00 o'r gloch. Fe ddylai fod yn noson i'w chofio a'i thrysori.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Bryn Evans, Dôl Afon, a Sharon Williams o Lanrug, ar achlysur eu priodas. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn Nhal-y-bont, Llanrug. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt. **Ysgol Cwm-y-glo:** Rydym yn falch iawn o groesawu Mrs Christine Jones fel cynorthwywraig Mrs Orritt yn y gegin. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Yn sicr fe fu Mrs Jones yn lwcus iawn fel aelod newydd sbon o Glwb yr Ysgol — hi enillodd gwobr gyntaf mis Ebrill; ac fe aeth yr ail wobwr i Mrs Hilda Orritt.

Treuliodd wyth o blant Bl. 5 a 6 wythnos yng Ngholeg Glynllifon yng nghwmni rhai o blant Ysgol Llanrug. Diolch i staff y Coleg am eu croeso ond diolch arbennig i Mr Wyn Griffith am gymryd gofal ohonynt.

Diolch hefyd i Mrs Carys Jones, Ysgol Brynrefail, am drefnu i blant Blwyddyn 6 gael treulio diwrnod yn yr ysgol. Roedd pob un wedi mwynhau y rhagflas o fywyd yn yr Ysgol Uwchradd.

A ninnau yng nghanol tymor y cymanfaedd mae'n braf llonyfarch y plant am eu gwaith yn yr arholiadau llafar ac ysgrifenedig yn yr Ysgolion Sul. Da iawn chi.

Llonyfarchiadau i Shân ac Owen Jones, 2 Dôl Afon, ar enedigaeth Lowri. Dyma achlysur hapus eto ac mae Kate, Liam a Rhian wrth eu bodd gyda'u chwaer fach newydd.

Bu Miss Nia Lewis o Ysgol Brynrefail gyda ni am wythnos o brofiad gwaith. Gobeithio ei bod wedi mwynhau'r cyfnod ac iddi gael budd ohono. Diolch iddi am ei chyfraniad.

Braf iawn oedd cael croesawu Cwmni'r Frân Wen i'r ysgol unwaith

eto. Cyflwyniad ar gyfer y Babanod oedd 'Melangell' a hawdd iawn oedd gweld fod pob un wedi llwyr ymgolli yn y perfformiad. Roedd hi'n braf croesawu Mr Alwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, atom hefyd. Roedd wedi dod i weld perfformiad y cwmni. Yn sicr dyma bnawn arall cofiadwy iawn gyda'r cwmni dawns yma.

Undeb y Mamau: I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor cynhaliwyd 'Moes a Phryn' yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 9 Mai, ac fe wnaed elw o £68. Yn dilyn mwynhawyd anerchiad gan y Parchg Tegid Roberts am gyfrifiad a wnaed tua 1895-97 ym mhlwyf Llanrug. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mrs Edwards. Yn gofalu am y baned roedd Mrs G. Roberts, Mrs M. Roberts a Mrs H. Orritt ac fe ddiolchwyd iddynt gan Mrs M. Latham. Enillwyd y raffl gan Mrs Myfi Roberts a Mrs Williams, Hafan Elan.

Bydd Gŵyl Deoniaeth Undeb y Mamau yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan ar nos Wener, 27 Mai.

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi. **Llais o'r Affrig:** Pleser oedd gwrando ar Alwyn Jones, sy'n enedigol o Gwm-y-glo, yn sgwrsio ag Alwyn Samuel ar y radio yn ddiweddar. Mae Alwyn yn fab i'r diweddar Bertie Jones, Angorfa, ac yn ŵyr i'r ddiweddar Kate Jones, Groeslon. Erbyn hyn mae Alwyn yn gweithio yng ngwledydd Affrica ac yn trafaelio cryn dipyn wrth ddilyn ei alwedigaeth.

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291


hefyd ail-osod carpedi

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres




Galwch neu ffoniwch

870605

am fanylion

CROESAIR MEHEFIN




AR DRAWS

1. Gwyddor yn ymwneud ag arwyddocad neu ystyr geiriau (8)
6. Caniatad i symud? (6)
9. Adrodd ar eiriau (6)
10. Giât o fyd arall yn adfer bywyd (8)
11. Rhodresgar a choegwych (8)
12. Defnydd disglair megis aur (5)
13. 'Does dim byd yn sicr mewn gair o'r maint ymal (12)
16. Yda chi'r merched yn dal i dalu am agor y rhain? (6,3,3)
19. Pysgod efo dannedd? (5)
21. Y gallu i siarad yn rhugl neu'n llithrig (8)
23. Nifer o fodrwyau a nifer o benillion wedi eu cysylltu (8)
24. Mae Rog a Di, beth bynnag, yn cydfyw'n ddedydd a llawen (6)
25. Penderfynu safle ar ôl gorffen yn y coleg (6)
26. Mae'n sicr, er yn rhyfedd iawn, nad morlo sy'n gosod safon (8)

I LAWR

2. Os, fel y dywedir, fod amser yn symud drwy'r awyr(6)
3. a'i dyma fys y cloc? (5)
4. Yr hyn y dylech ei wneud pan mae'r gosodwr yn ffurfio cliw mor wirion â hwn! (9)
5. Cnaf benywaidd sydd ar 3 i lawr (7)
6. Braidd yn anunion, fel mae'r gair yn awgrymu, i ddweud y gwir (5)
7. Esgeulustra (9)
8. Y bobl sy'n byw drws nesa' i Ffrancwyr (8)
13. Amheuaeth a phetruster (9)
14. Mae Beryl Sand yn batrwm o ardderchogrwydd (9)
15. Drws y car, yn rhyfedd iawn, sy'n creu'r drawdod (8)
17. Drwgdybiaethau (7)
18. Mae'r sysylltiadau rhwng Pero a fi yn disgleirio (6)
20. Cynanu, mae'n nosi, wl (5)
22. O gymryd cam ar draeth Dinas Dinlle, daw yn ôl ddarluniau byw o hanes yr ardal (5)

ATEBION CROESAIR MAI



I Ben Llŷn yr â'r wobwr am ddatrus croesair mis Mai, gan mai ymgais Dilys A. Pritchard-jones, Ynys, Abererch, ddaeth allan o'r het. Mae'n dda gweld fod cymaint yn

cystadlu'n fisol o'r rhan honno o Wynedd; oes gennych chi glwb o groeseirwyr wedi ei sefydlu acw, ynteu a'i cyd-ddigwyddiad ydi'r ffaith fod tua chwarter o'r holl gystadleuwyr a'u cyfeiriad o gwmpas tref Pwllheli?

Daw nifer o gystadleuwyr ffyddlon o Glwyd hefyd, ac un neu ddau o ardal bro Lleu, ond llond dwrn yn unig o fro'r Eco. Byddai'n ddiddorol gwybod pam.

Anfonwch eich atebion i groesair Mehefin i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn 20 Mehefin, os gwelwch yn dda; a phob lwc i chi.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Dyddiadur y Mis

MIS MEHEFIN

- Iau** 26 **LLANBERIS:** Undeb y Mamau — Gwibdaith i Gaer.
- Mercher** 8 **BETHEL:** Merched y Wawr — Taith ddirgel. Cychwyn am 6.45 o'r gloch.
CAEATHRO: Ffair Wanwyn yn y Festri am 7 o'r gloch.
- Sadwrn** 11 **DINORWIG:** Hwyl Haf yn yr Allt Ddu am 1.30.
CWM-Y-GLO: Taith gerdded nodedig at Eglwys Sant Gabriel.
- Mercher** 15 **BETHEL:** Cylch Meithrin — Cyfarfod Cyffredinol am 7.30 o'r gloch.
- Iau** 16 **PENISARWAUN:** Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol am 5 o'r gloch.
- Sul** 19 **DINORWIG:** Gŵyl Bregethu Eglwys St. Mair am 3.30 o'r gloch — Parchg Aelwyn Roberts.
DEINIOLLEN: Gŵyl Bregethu Eglwys Crist am 5 o'r gloch.
- Llun** 20 **DEINIOLLEN:** Merched y Wawr — Cyfarfod Cyffredinol.
- Sul** 26 **DEINIOLLEN:** Cyfarfodydd y Gymdeithas Feiblau — plant am 2 o'r gloch; Cymanfa am 6 o'r gloch.
- Mercher** 29 **LLANRUG:** Plaid Cymru yn y Sefydliad Coffa.
- Iau** 30 **BETHEL:** Plygu'r Eco yn y Neuadd Goffa am 6.30 o'r gloch.

RHODDION

£25
Olwen Davies, Bangor; Di-enw, Llanrug.

£10
R. S. Humphreys, Plas Gwyn, Llanrug; Mr W. A. Jones, Poole, Dorset; Mrs Helen Roberts, 2 Gwel Fynydd, Llanrug.

£5
Mrs J. Parry Moranned, Hermon Terrace, Llanrug; Mrs Jenny Williams, Morfa Bychan; Mr a Mrs Alun Williams, 2 Rhos Rug, Llanrug; Mr a Mrs Pranal Parsottam, Bangor; Mr a Mrs Gwilym Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Megan Jones, Di-enw.

Minffordd, Llanberis; Mr Tom Peris Roberts, 11 Stryd Turner, Llanberis; Stanley Griffiths, Harrogate.

£3.50
Mrs A. Sidebotham, Whalley Bridge.

£3
Mrs A. Williams, Ystrad, Llanrug; Edgar a Carys Owen, Glyn Awel, Waunfawr.

£2
Teulu Cae Gwyddel, Brynrefail; Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel; Eleri Owen, 4 Tai Ffynnon, Clwt-y-bont.

£1
Di-enw.

AR WERTH
FORD ESCORT (B) 1300
GWERTHU'N RHAD I YRRWR GOFALUS!
(0286) 673515

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

CHWARAEON

ABWYD I'R CRICEDWYR IFANC



Cricedwyr ifanc yn ymarfer eu sgiliau.

Unwaith eto yr haf yma, trwy gydweithrediad Ysgol Brynrefail a Chyngor Bwrdeistref Arfon, cynhelir nifer o gyrsgiau i blant ysgolion cynradd y fro. Pan alwodd yr Eco heibio'r ysgol criced a gymnasteg oedd yn bod. Roedd y plant yn amlwg yn mwynhau eu hunain a llawer o ddolch i'r hyfforddwyr sy'n rhoi o'u hamser i gynnal diddordeb y plant.

Y mae abwyd arbennig i'r sawl sy ar y cwrs criced eleni — 18 o blant o 7 i 11 oed — o'r criw yma dewisir carfan fydd yn chwarae mewn cystadleuaeth ym Mhwlheli. Yno bydd timau o'r wyth canolfan ledled

Gwynedd ble mae'r hyfforddi yn bodoli. Yna yn dilyn y gystadleuaeth dewisir carfan Gwynedd. Bydd y tîm hwnnw yn chwarae mewn gêm 'Kwik Cricket' yn erbyn tîm o Glwyd. Fe chwaraeir y gêm honno ar faes criced Bae Colwyn yn ystod egwyl cinio y gêm bencampwriaeth sirol rhwng Morgannwg a Sir Gaerhirfryn ym mis Mehefin. Gobeithio felly bydd un o blant ifanc bro'r Eco yn cyfarfod â Mike Atherton, Huw Morris, Mathew Maynard a'r chwaraewyr rhyngwladol eraill. Gellir cael gwybodaeth am y gyrsgiau drwy gysylltu ag Ysgol Brynrefail.

Dim angen 'Filosan' yma!

Soniwyd droeon yn yr adran chwaraeon am ein hedmygedd o'r sawl sy'n dod a chlod i'r fro trwy eu hymroddiad. Mae hyn yn arbennig o wir ym myd athletau gan mai cyntefig iawn yw'r adnoddau hyfforddi. Y mis yma braf yw clodfori campau merch yn ei thridegau a gipiodd bencampwriaeth y Treiathalon yn Telford yn ddiweddar. y mae angen cryn gryfder a dycnwch i wneud y Treiathalon. Mae tair elfen i'r gystadleuaeth — nofio 600m mwn pwll nofio; beicio 16km ar ffyrdd y fro; ac yna rhedeg 5km. Tipyn o gamp, ond dyna a gyflawnodd Bridget Ripley, o'r Fron fferam, Y Fach-wen. Mae Bridget yn aelod o Glwb Rhedwyr Eryri ac hefyd clwb nofio Meistri Arfon. Roedd Bridget wedi cystadlu yn Telford ddwywaith o'r blaen a chipio'r ail wobwr ar y ddau achlysur. Y trydedd tro fe gipiodd y brif wobwr gyda'r amser anhygoel o 1 awr 4 munud am y tri chymal. Mae hyn yn dipyn o ymdrech. Nid hyn oedd y cyfan a gyflawnodd y ferch — sy'n dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau nos — tra'n cynrychioli tîm Meistri Arfon ym Mhencampwriaeth Cymru, fe dorrodd record Cymru yn y ras 200m i ferched rhwng 35 a 39 oed. Ond nid dyna'r cwbl! Yn y ras 200m 'individual medley', hynny yw ras yn cynnwys 4 strôc nofio, torrodd record Cymru o ddeng eiliad.

Yn haeddiannol iawn dyfernir Tlws y Mis i Bridget am wir orchest.

Chwip Dîn Mr Golygydd Chwaraeon

Rwyf wedi ymddiheuro yn rhifyn mis diwethaf fod ambell i enw wedi ei adael allan o'r rhestr chwaraewyr ar gyfer Cystadleuaeth 200. Mae un darlennydd wedi ymateb i hyn ac fe ddyfynaf ei lythyr. Diolch am bob ymateb!

Annwyl Olygydd Chwaraeon, Rhag cywilydd i chil Rhag cywilydd i chil Sut ar wyneb y ddaear y medrwydd ddewis rhestr o chwaraewyr o dimau Llanbêr, Llanrug a Deiniolen heb gynnwys enw Hefin 'Casgan' Jones. Fe ddisgleiriodd fel seren Bethlem dros dîm Llanrug am bum tymor. Gofynnwch i ffwlbacs y cyfnod pwy oedd yr asgellwr mwyaf anodd i'w sodro; rwy'n siŵr y buasai enw 'Cas' yn uchel ar y rhestr. 'Da chi ddim yn cofio yr hen goesa' bach 'chwarter i dri' yn cyfareddu torfeydd ledled y fro? 'Da chi ddim yn cofio'r igamogamu gwefreiddiol a'r goliau gwych? 'Da chi dim cofio'r nytmegs a'r ochr-gamu perffaith? Plis, plis, Mr Golygydd, ail ystyriwch eich rhestr, a rhowch i'r hen 'Casgan' ei le haeddiannol yn y garfan o chwaraewyr, wedi'r cyfan dyma'r peth agosaf i George Best a welwyd yn lleol!

Yn gywir,

J.B.O.

Un o ffans yr hen(?) 'Cas'

Ymddiheuriadau, a chytunaf â J.B.O.

POTIO AM Y TLYSAU

Bu potiwrws llawr y dyffryn yn llwyddiannus iawn ar y byrddau snwcer a pŵl y tymor yma.

Mae'r 'dwbwl' wedi ei gwblhau gan dîm snwcer Bethel. Yn amlwg mae'r datblygiad i wella yr adnoddau wedi dod a llwyddiant. Mae'n dipyn o gamp i dîm pentref ennill tlysau yn y gyngrair snwcer leol gan fod traddodiad o 'hel tîm' yn gryf mewn nifer o dimau. Tîm hollol leol — a'r mwyafrif yn fechgyn ifainc o'r pentref — yw'r garfan bresennol. Llwyddwyd i gipio pencampwriaeth Adran 2 o Gynghrair Bangor a'r Cylch. Yna, cipiwyd cwpan y gyngrair i gwblhau'r dwbwl nodedig. Bydd y tîm felly yn esgyn i'r brif adran y tymor nesaf. Dros y blynyddoedd fe lwyddodd tîm Bethel i esgyn i'r brif adran ond yna disgyn yn ôl i'r ail adran. Mae rhai o'r 'hen bennau' yn awgrymu fod deunydd carfan gref ymysg y gymysgfa o'r ifanc a'r rhai 'ychydig bach yn hŷn' y tro yma. Yn sicr bydd y tîm yn aros

gyda'i gilydd. Gyda tymor neu ddau o gadarnhau eu sefyllfa yn y brif adran, pwy a ŵyr na ddaw y brif wobwr i'r pentref.

Ar y bwrdd pŵl fe gurodd tîm 'B' Gors Bach un o brif gampau'r tymor trwy gipio cwpan y cyngrair. I gwblhau'r gamp roedd yn rhaid iddynt guro un o brif dimau y brif adran, sef Clwb Pêl-droed Caernarfon. Tipyn o gamp i fois y Gors sy'n potio yn yr ail adran — a nifer o lefydd eraill! Roedd y gêm derfynol yn gofiadwy gan i'r Gors ildio mantais o 4-2 pan darodd y Cofis yn ôl i 4-4. Roedd popeth yn dibynnu ar y gêm ola' — Huw Cefn Gwyn yn erbyn 'rhiw intyrnashiynal'. Dim problem i Cefn Gwyn — a daeth y Tlws i'r Gors. Tipyn o waith gyda'r 'Braso' i Ceinwen Cefn Gwyn 'leni felly — Huw â'r tlysau pŵl, a Dewi wedi casglu tlysau o bob cyfeiriad trwy sgorio goliau'n rheolaidd i Ddeiniolen.



Aelodau'r cwrs gymnasteg yn Ysgol Brynrefail.

Edrych yn ôl ynteu ymlaen?

Fel arfer yn rhifyn mis Mai o'r Eco gellir edrych yn ôl dros dymor pêl-droed hir arall. Hir yn wir yw'r gair addas y tro yma. Y mae Llanrug a Llanberis yn dal â gêmâu i'w cyflawni, ac mae Deiniolen yn ymddangos mewn un gêm rownd derfynol. Er fod y gaeaf diwethaf wedi bod yn wlyb, onid yw hi'n afresymol fod y tymor mor hir. Rhaid cofio fod Llanberis a Llanrug yn cynnal dau dîm oedolion ac ambell i dîm ieuencid. Sut mae'r clybiau hyn yn mynd i gael eu meysydd mewn cyflwr boddhaol? Clywais si fod ambell dimau eisoes wedi trefnu gêmâu cyfeillgar ar gyfer y tymor nesaf — ym mis Gorffennaf! Oni fuasai'n well cael tymor blwyddyn gron gyfan?!!

Mae Llanberis wedi gwneud yn ardderchog eleni gan orffen yn uchel yng Nghyngrair Sealink. Yn amlwg mae dylanwad Jiws wedi bod yn

allweddol. Siomedig ydynt nad oes Tlws wedi cyrraedd eleni oherwyd, ar brydiau, fe chwaraewyd pêl-droed atyniadol iawn.

Tymor siomedig iawn fu hi i Llanrug. Maent wedi ymddangos yn ddjarweiniad ar brydiau eleni. Nid yw yr un pendantsrwydd a'r dycnwch i'w weld yno a welwyd mewn blynyddoedd a fu. Gobeithio mai cyfnod o ail-wampio sy yma gan fod y cyfleusterau, ac ymroddiad y pwyllgor, yn mynnu fod dyddiau gwell ar ddychwelyd.

Nid oes angen dweud dim am Ddeiniolen. Tymor campus, ond unwaith eto fel tîm gwych Llanberis yn y 60au (ydych chi'n cofio'r gêm fawr yn erbyn 'Llechid') ni chyflawnwyd y gamp iawn.

Gyda llaw, gyda tîm Bangor yn Ewrop y tymor nesaf a welir ambell bêldroediwr addawol o'r cylch yn ymuno â'r 'Bangor Lads'?

ATHLETAU ARFON

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau, Mai 12fed.

Bydd y disgyblion canlynol yn cynrychioli Arfon yng Nghystadleuaeth Gwynedd ar ddydd Sadwrn, Mehefin 11eg.

Mark Davies, 100m; Eifion Jones,

800m; Alun Vaughan, 300m; Arwel Ellis, naid uchel; Arwel, picell; Gareth, disgen; Mark Newton, naid hir; Manon Williams, 200m a 300m; Cailtin Wroe, 300m clwydi; Lois Dafydd, clwydi; Eluned Davies, picell.